# DYSGU AM Y GOSB EITHAF

Pecyn addysgu i helpu myfyrwyr 14+ oed i archwilio materion yn ymwneud â defnyddio'r gosb eithaf




AMNEST
RHYNGWLADOL

# CYNNWYS

3 **Cyflwyniad**
3 **Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn • Addysgu deunyddiau sensitif**
4 **Safbwynt Amnest Rhyngwladol ar y gosb eithaf**
5 **Gwnewch rywbeth nawr • Cydnabyddiaethau**

6 **GWERS 1 Cyflwyniad i'r gosb eithaf**
Beth mae dysgwyr yn ei wybod am y gosb eithaf? Ar ôl archwilio'r ffeithiau yn ymwneud â'r pwnc, bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cwis, yn trafod ystadegau ac yn pleidleisio i weld a ydynt o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf.

11 **GWERS 2 GWERS 2 Hawliau dynol a'r gosb eithaf**
A yw'r gosb eithaf yn torri hawliau dynol? Bydd dysgwyr yn archwilio'r safbwynt hawliau dynol cyn dadansoddi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf. Mewn ffilm, bydd dau unigolyn a ddedfrydwyd i farwolaeth er eu bod yn ddieuog yn adrodd eu hanesion, a bydd myfyrwyr yn asesu effaith euogfarnu ar gam.

14 **GWERS 3 Dedfryd marwolaeth**
Bydd myfyrwyr yn trafod ac yn gwerthuso pum astudiaeth achos ar res yr angau i ddangos sut mae'r gosb eithaf yn effeithio ar fywydau go iawn. Mae'r rhain yn cynnwys achos Troy Davies, a gafodd ei ddienyddio drwy bigiad marwol ym Medi 2011, a Noura Hussein, merch yn ei harddegau a gafodd ddedfryd marwolaeth yn 2018 am ladd ei gŵr.

20 **GWERS 4 Plant a'r gosb eithaf**
Mae llawer o droseddwyr ifanc ar res yr angau, ac mae rhai gwledydd yn dedfrydu plant i farwolaeth o hyd, er bod dienyddio unrhyw un am gyflawni trosedd dan 18 oed yn anghyfreithlon. Gyda chlipiau fideo grymus a hanesion go iawn, bydd myfyrwyr yn archwilio eu barn eu hunain: a ddylai'r gosb eithaf fod yn berthnasol i blant?

23 **GWERS 5 Hil a'r gosb eithaf**
Bu rhagfarn hiliol yn fater mewn dadleuon am y gosb eithaf erioed. Mae Amnest wedi dadlau ers amser maith bod y gosb eithaf yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig dynion duon yn yr Unol Daleithiau a gweithwyr ymfudol yn Sawdi Arabia. Bydd myfyrwyr yn edrych ar y diffiniad ac enghreifftiau o wahaniaethu. Byddant yn archwilio sut gall gwahaniaethu ddigwydd ym mhroses y gosb eithaf.

31 **GWERS 6 Y ddadl am y gosb eithaf**
A ddylai'r gosb eithaf gael ei chadw, ei chyfyngu neu ei diddymu yn UDA? Bydd myfyrwyr yn cyflwyno eu dadleuon o safbwynt penodol ac yn perswadio eraill i gefnogi eu safbwyntiau.

36 **GWERS 7 Gweithredu**
Mae astudiaethau achos a ffilmiau'n dangos bod gan bob un ohonom rym i ddadlau dros ein safbwyntiau. Bydd myfyrwyr yn dysgu am wahanol grwpiau sy'n gweithredu yn erbyn y gosb eithaf, cyn cael eu herio i newid neu wella eu cymuned leol.

40 **GWASANAETH Bywyd am Fywyd**
Mae'r sgript gwasanaeth yn codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â throseddwyr ifanc ar res yr angau.

51 **SYNIADAU ADDYSGU CYFLYM**
Dewiswch o chwe gweithgaredd sy'n sbarduno trafodaeth neu wersi bychan mewn meysydd pwnc gwahanol, fel addysg grefyddol, drama, hanes, llythrennedd, celf, ABCh a dinasyddiaeth.

52 **Crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol**
54 **Map y gosb eithaf 2018**
55 **Geirfa**
56 **Adnoddau a sefydliadau defnyddiol**

# CYFLWYNIAD

Bob dydd, mae mwy o bobl yn cael eu dienyddio a'u dedfrydu i farwolaeth gan y wladwriaeth fel cosb ar gyfer amrywiaeth o droseddau. Mewn rhai gwledydd, gall fod ar gyfer troseddau yn ymwneud â chyffuriau; mewn gwledydd eraill, mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithredoedd yn ymwneud â therfysgaeth a llofruddiaeth.

Bu gostyngiad cyffredinol mewn defnyddio'r gosb eithaf ledled y byd, ond mae llawer o wledydd yn ei defnyddio'n rheolaidd, ac mae o leiaf 19,336 o bobl (ar ddiwedd 2018) ar res yr angau, yn aml heb wybod pryd fydd y ddedfryd yn cael ei rhoi ar waith.

Er bod llawer o sefydliadau, gan gynnwys Amnest Rhyngwladol, yn gwrthwynebu'r gosb eithaf yn ddieithriad, mae'r adnodd hwn wedi'i lunio i fod yn gytbwys a hwyluso dadl a thrafodaeth agored i fyfyrwyr 14+ oed o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf.

Mae'n cynnwys gweithgareddau a ffeithiau i archwilio'r gosb eithaf. Mae'n edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn, ac yn gofyn sut mae'r gosb eithaf wedi dod yn fater hawliau dynol. Hefyd, gall myfyrwyr archwilio effaith byw ar res yr angau ac ystyried a yw'n deg i ddedfrydu plant i farwolaeth.

Mae'r adnodd yn cynnwys sgript a dadl ar gyfer gwasanaeth. Mae hefyd yn defnyddio ffilmiau, astudiaethau achos a data i bobl ifanc ysgrifennu amdanynt.

## Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Mae saith gwers a sgript drama ar gyfer gwasanaeth. Gall y gwersi fod yn rhai arunig neu gellir eu defnyddio'n olynol. Mae chwe gweithgaredd neu wers fechan hefyd i sbarduno trafodaeth mewn meysydd pwnc gwahanol (e.e. addysg grefyddol, llythrennedd, drama, hanes, addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd, a dinasyddiaeth).

Rydym yn annog myfyrwyr i gofnodi'r hyn maent yn ei ddysgu, gan gynnwys ffeithiau, cwestiynau o drafodaethau grŵp ac ymatebion. Ar adegau amrywiol yn ystod y gweithgareddau, gofynnir i fyfyrwyr ailystyried eu barn ar y gosb eithaf: a yw wedi newid o ganlyniad i'r hyn maent wedi'i ddysgu?

Awgrym yn unig yw amseriad y gwersi, ac maent yn dibynnu ar y myfyrwyr a hyd y drafodaeth. Gallai rhai gweithgareddau bara dwy wers yn hawdd. Gellir defnyddio'r adnodd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol, ond mae dyddiadau allweddol yn cynnwys Diwrnod y Byd yn Erbyn y Gosb Eithaf (10 Hydref) a Diwrnod Hawliau Dynol (10 Rhagfyr). Gallech chi gysylltu Gwers 5 â Mis Hanes Pobl Dduon (Hydref).

## Addysgu deunydd sensitif

Mae'r deunyddiau wedi'u llunio i fod yn addas i fyfyrwyr 14+ oed ac maent yn adlewyrchu ystod o gredoau am y gosb eithaf. Mae'n bwnc dadleuol ac emosiynol, ac mae'r adnoddau'n cynnwys deunyddiau grymus, sensitif a all fod yn annifyr ar adegau. Atgyfnerthwch reolau'r dosbarth mewn perthynas â thrafodaeth gall a pharchus, a rhowch rybuddion am gynnwys yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o ddeunydd a all peri gofid. Ymatebwch i ymatebion, cwestiynau a chredoau'r myfyrwyr, a gweithiwch mewn ffordd sy'n parchu hawliau ac yn cefnogi hunanfynegiant a thrafodaeth.




Cynhadledd y gosb eithaf, Sweden, Rhagfyr 1977 © Amnest Rhyngwladol

## Safbwynt Amnest Rhyngwladol ar y gosb eithaf

Ym 1977, dechreuodd ymgyrch Amnest i ddiddymu'r gosb eithaf. Cynhaliodd Amnest y gynhadledd gyntaf yn erbyn y gosb eithaf yn Sweden, ac roedd mwy na 200 o bobl o 57 o wledydd yn bresennol. Arweiniodd at 'Ddatganiad Stockholm', a oedd yn galw ar bob llywodraeth i ddiddymu'r gosb eithaf yn gyfan gwbl ac ar unwaith. Dim ond 16 o wledydd a oedd wedi diddymu'r gosb eithaf bryd hynny. Erbyn heddiw, mae 142 o wledydd (mwy na dau o bob tri) wedi ei diddymu yn ôl y gyfraith neu'n ymarferol.

Ers hynny, mae Amnest wedi gweithio ar lawer o achosion – er enghraifft, yn 2018, cafodd dedfrydau marwolaeth 14 o garcharorion ym Menin eu newid ar ôl i ni, ac eraill, ymgyrchu drostynt. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ystadegol blynyddol y cyfeirir ato'n eang er 1979, ac rydym wedi bod yn awdurdod byd-eang allweddol ar fonitro ac adrodd ar ddedfrydau marwolaeth a dienyddiadau ledled y byd. Rydym hefyd yn hyrwyddo diddymu ar lefel genedlaethol. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys y bleidlais hanesyddol yn Rhagfyr 2015 gan y senedd ym Mongolia ar gyfer cod troseddol newydd a oedd yn diddymu'r gosb eithaf ar ôl 21 blynedd o ymgyrchu'n ddi-baid. Daeth y cod newydd i rym ar 1 Gorffennaf 2017.

Mae Amnest yn erbyn y gosb eithaf ym mhob achos yn ddieithriad, beth bynnag fo'r trosedd neu p'un a yw rhywun yn euog neu'n ddieuog. Rydym yn gweithio'n weithredol i roi'r gorau i'w defnyddio ym mhob man.

Mae hyn oherwydd:

1) Mae'r gosb eithaf yn torri'r hawliau dynol a bennir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol: yr hawl i fywyd (Erthygl 3) a'r hawl i beidio â chael eich arteithio (Erthygl 5).
2) Mae tystiolaeth yn dangos nad yw'n atal troseddu. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y gosb eithaf yn fwy effeithiol o ran lleihau troseddu na charcharu.
3) Mae'n ddi-droi'n-ôl ac mae camgymeriadau'n digwydd. Er 1973, mae dros 160 o garcharorion ar res yr angau yn yr UD wedi'u difeio'n gyfan gwbl am eu troseddau. Pwy a ŵyr faint sydd wedi'u dienyddio am droseddau na wnaethant eu cyflawni?
4) Mae'n aml yn cael ei defnyddio mewn gwledydd â systemau cyfiawnder annheg. Er enghraifft, mae Tsieina ac Iran yn rhoi dedfrydau marwolaeth ar ôl treialon annheg ac ar ôl cael 'cyfaddefiadau' drwy arteithio.
5) Mae'n gwahaniaethu. Mae'r gosb eithaf yn cael effaith anghymesur ar leiafrifoedd



Siarad am hawliau dynol yn yr ystafell ddosbarth

hiliol, ethnig a chrefyddol, yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn tlodi.

## Gwnewch rywbeth nawr

Mae llawer o ffyrdd y gall pobl ifanc ymgysylltu ag Amnest. Mae ein grwpiau ieuenctid yn y DU wedi'u lleoli mewn ysgolion, yn bennaf, ac maent yn helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ymgyrchu dros hawliau dynol, ac yn galluogi pobl ifanc i sylweddoli bod ganddynt lais. Gallwch weld sut i sefydlu neu ymuno â grŵp ieuenctid Amnest yn **amnesty.org.uk/youth**

Gall athrawon ymuno â TeachRights i gael adnoddau addysg am ddim, newyddion a syniadau yn **amnesty.org.uk/teachrights**

Yn olaf, boed yn siarad yn y gosb eithaf neu hawliau plant, bydd siaradwr o Amnest yn dod â gwahanol themâu hawliau dynol yn fyw. Gallwch wahodd un o'n siaradwyr hyfforddedig i gyflwyno gweithdai, gwersi a gwasanaethau yn **amnesty.org.uk/speakers**

## Cydnabyddiaethau

Crëwyd yr adnodd hwn gan Amnest Rhyngwladol y DU. Diolch yn arbennig i Grŵp Ymgynghorol Athrawon Amnest am eu cymorth wrth ei ddatblygu.

Lanlwythwyd gan Amnest Rhyngwladol y DU Ionawr 2020

# **GWERS 1** CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF

Beth mae myfyrwyr yn ei wybod am y gosb eithaf? Ar ôl archwilio'r ffeithiau am y pwnc, bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cwis, yn trafod ystadegau ac yn pleidleisio ar b'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf.

**Amseriad**

60 munud

**Nodau**

- Ennill dealltwriaeth o'r gosb eithaf
- Archwilio'r ffeithiau a'r ystadegau
- Trafod eu barn eu hunain am y gosb eithaf

**Bydd arnoch angen**

Map y gosb eithaf (tudalen 54)
Cwis y gosb eithaf (un i bob disgybl)
Atebion cwis y gosb eithaf (i'r athro/athrawes)

**Clip fideo:** Dedfrydau marwolaeth a dienyddiadau 2017 (**amnesty.org/ên/what-we-do/death-penalty**) 2.26 munud

**Sbardun** 10 munud

Gofynnwch i'r myfyrwyr lunio diffiniad o'r gosb eithaf. Beth maent yn ei wybod am y gosb eithaf? Defnyddiwch fap y gosb eithaf ar dudalen 54 i roi gwybodaeth gefndir a thrafodwch. Gofynnwch i'r myfyrwyr bleidleisio ar b'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf neu'n ansicr (defnyddiwch bapurau pleidleisio neu gallant godi eu dwylo). Gall eich myfyrwyr ysgrifennu paragraff am eu safbwyntiau hefyd a'i rannu â'r dosbarth.

**Gweithgaredd 1** 20 munud

Dosbarthwch y cwis ar y gosb eithaf a gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau'n unigol neu mewn parau. Rhowch 10 munud iddynt. Edrychwch ar yr atebion fel dosbarth a defnyddiwch y pwyntiau meddwl ar y daflen ateb i hwyluso trafodaeth dosbarth. Beth oedd yn syndod iddynt?

**Gweithgaredd 2** 20 munud

Gan aros mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr enwi'r chwe gwlad a ddefnyddiodd y gosb eithaf fwyaf yn 2018. Gofynnwch iddynt gyfiawnhau eu dyfaliadau ac yna darllenwch yr atebion isod. A ydynt yn syndod iddynt? Pam?

**Atebion**
Tsieina 1,000oedd, ond mae'r ffigurau'n anhysbys oherwydd eu bod yn gyfrinach wladol
Iran 253+
Sawdi Arabia 149
Fietnam 85+
Irac 52+
Yr Aifft 43+

Nawr, darllenwch restr y troseddau ar y dudalen nesaf. Mewn parau, rhowch ddwy funud iddynt benderfynu pa gosbau maent yn credu a roddwyd ar gyfer pob trosedd. Sawl un o'r 10 o droseddau a arweiniodd at y gosb eithaf, yn eu barn nhw? Edrychwch ar eu hatebion ac esboniwch fod pob trosedd ar y rhestr wedi arwain at ddedfryd marwolaeth rywle yn y byd yn 2018. Sut mae hyn yn gwneud iddynt deimlo? Teg neu'n annheg? Pam?

**Troseddau**
Troseddau yn ymwneud â chyffuriau
Godineb
Herwgipio

Cymryd rhan mewn sefydliad neu weithred derfysgol
Trais rhywiol
Ysbïo
Bygythiadau i ddiogelwch gwladol
Llygredigaeth
Cwestiynu polisïau arweinydd
Cabledd (gan gynnwys sarhau Duw neu'r Proffwyd)

Dangoswch y clip am y gosb eithaf y cyfeirir ato yn yr adran 'Bydd arnoch angen'.

Gan aros mewn parau, gofynnwch iddynt gofnodi cymaint o wybodaeth ag y gallant am y gosb eithaf tra bydd y clip yn cael ei chwarae. Rhannwch y wybodaeth â'r pâr nesaf atoch. Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am statws y gosb eithaf ledled y byd?

Mae Amnest yn diweddaru ei ffigurau'n flynyddol yn amnesty.org/ên/what-we-do/death-penalty. Mae'r wefan hon yn cynnwys data er 2007. Ar fap rhyngweithiol, gall myfyrwyr gymharu nifer y dedfrydau marwolaeth a roddwyd yn 2018 ynghyd â nifer y dienyddiadau. Hefyd, gallant weld sut mae nifer y gwledydd sy'n dienyddio wedi newid er 2007. Beth mae hyn yn ei ddangos? Lluniwch siart cylch neu graffiau bar i ddangos eich canfyddiadau, neu gallech greu ffeithlun.

**Sesiwn dorfol** 5 munud

A oes unrhyw ddewisiadau eraill i'r gosb eithaf? Os oes, ar gyfer pa droseddau? A all myfyrwyr fynegi a chyfiawnhau eu barn bersonol eu hunain? Gofynnwch iddynt bleidleisio eto ar b'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf, neu'n ansicr (defnyddiwch bapurau pleidleisio neu gallant godi eu dwylo). A oes unrhyw un wedi newid ei farn/barn?

TAFLEN

# GWERS 1 CWIS AR Y GOSB EITHAF

## Enw'r myfyriwr:

1 **Sawl gwlad sydd wedi diddymu (neu roi'r gorau i ddefnyddio) y gosb eithaf ar gyfer pob trosedd erbyn diwedd 2018?**
Pob un (197) 106 74 (rhowch gylch)

2 **Pa un yw'r unig wlad yn Ewrop i roi dedfrydau marwolaeth a chyflawni dienyddiadau?**

3 **Rhestrwch y pum dull mwyaf cyffredin o ddienyddio.**

4 **Yn 2018, sawl dienyddiad a gofnodwyd (ac eithrio Tsieina)?**
**O leiaf:**
223 690 1,463 (rhowch gylch)

5 **Pam mae'r nifer honno'n debygol o fod yn uwch?** ____________

6 **Faint o bobl sydd ar res yr angau o gwmpas y byd ar hyn o bryd?**
3,703 19,336 43,010 (rhowch gylch)

7 **Enwch yr unig wlad i ddiddymu'r gosb eithaf yn 2018.**

8 **Sawl talaith yn yr UD sydd â'r gosb eithaf yn y gyfraith o hyd?** ____________

9 **Pa dalaith yn yr UD a gyflawnodd y nifer fwyaf o ddienyddiadau yn 2018?**

10 **Pa dalaith yn yr UD sy'n defnyddio'r gadair drydanol o hyd?**
Tecsas Fflorida Connecticut (rhowch gylch)

11 **Er 1973, mae 166 o bobl wedi'u rhyddhau o res yr angau yn yr UD gan eu bod nhw'n ddieuog.**
Gwir Gau (rhowch gylch)

12 **Ledled y byd, faint o bobl a oedd dan 18 oed pan wnaethant droseddu a gafodd eu dienyddio yn 2018?**

13 **Ym mha flwyddyn wnaeth y DU ddiddymu'r gosb eithaf yn ffurfiol ar gyfer pob trosedd?**
1946 1998 2005 (rhowch gylch)

14 **Ar gyfartaledd, mae un dienyddiad yn digwydd bob 9 awr.**
Gwir Gau (rhowch gylch)

I'R ATHRO

# GWERS 1 ATEBION Y CWIS AR Y GOSB EITHAF

1 **Sawl gwlad sydd wedi diddymu (neu roi'r gorau i ddefnyddio) y gosb eithaf ar gyfer pob trosedd erbyn diwedd 2018?**

**Ateb:** 106 ar gyfer pob trosedd.
Roedd 142 o wledydd (mwy na dau o bob tri) wedi diddymu'r gosb eithaf yn ôl y gyfraith ac arfer.
Diddymwyd ar gyfer troseddau arferol yn unig 8 Diddymwyd mewn arfer 28

2 **Pa un yw'r unig wlad yn Ewrop i roi dedfrydau marwolaeth a chyflawni dienyddiadau?**

**Ateb:** Belarus. Roedd o leiaf pedwar dienyddiad a dwy ddedfryd marwolaeth yn 2018.

**Pwynt meddwl:** A yw'n syndod i chi bod y gosb eithaf yn cael ei defnyddio mewn un wlad yn Ewrop yn unig? Pam?

3 **Rhestrwch y pum dull mwyaf cyffredin o ddienyddio.**

**Ateb:**
Torri pen
Lladd â thrydan
Crogi
Pigiad marwol Saethu

**Pwynt meddwl:** Pam ydych chi'n credu mai'r rhain yw rhai mwyaf cyffredin?

4 **Yn 2018, sawl dienyddiad a gofnodwyd (ac eithrio Tsieina)?**

**Ateb:** 690. Mae hyn 31 y cant yn is nag yn 2017 (o leiaf 993 o ddienyddiadau).

5 **Pam mae'r nifer honno'n debygol o fod yn uwch?**

**Ateb:** Tsieina oedd â'r nifer fwyaf o ddienyddiadau yn y byd o hyd, gan roi mwy o ddedfrydau marwolaeth ar waith na gweddill y byd i gyd – ond mae'r ffigurau'n gyfrinach wladol o hyd. Mae Amnest yn amcangyfrif bod miloedd o bobl yn cael eu dedfrydu i farwolaeth a'u dienyddio bob blwyddyn.

6 **Faint o bobl sydd ar res yr angau o gwmpas y byd ar hyn o bryd?**

**Ateb:** 19,336

**Pwynt meddwl:** Oeddech chi'n meddwl y byddai'r nifer yn fwy neu'n llai? Pam?

7 **Enwch yr unig wlad i ddiddymu'r gosb eithaf yn 2018.**

**Ateb:** Burkina Faso (cyhoeddodd Gambia a Maleisia foratoriwm swyddogol ar ddienyddiadau).

8 **Sawl talaith yn yr UD sydd â'r gosb eithaf yn y gyfraith o hyd**

**Ateb:** 30 (fe'i diddymwyd mewn 20 o daleithiau).

9 **Pa dalaith yn yr UD a gyflawnodd y nifer fwyaf o ddienyddiadau yn 2018?**

**Ateb:** Tecsas, lle cyflawnwyd 13 o 25 o ddienyddiadau (dienyddiwyd saith o bobl yn Nhecsas yn 2017).

10 **Pa dalaith yn yr UD sy'n defnyddio'r gadair drydanol o hyd?**

**Ateb:** Fflorida

11 **Er 1973, mae 166 o bobl wedi'u rhyddhau o res yr angau yn yr UD gan eu bod nhw'n ddieuog? Gwir neu gau?**

**Ateb:** Gwir

**Pwynt meddwl:** A yw hyn yn newid eich barn am y gosb eithaf? Pam?

12 **Ledled y byd, faint o bobl a oedd dan 18 oed pan wnaethant droseddu a gafodd eu dienyddio yn 2018?**

**Ateb:** Wyth. Saith yn Iran ac un yn Ne'r Swdan. Mae troseddwyr ifanc ar res yr angau yn Iran, Pacistan, Sawdi Arabia a De'r Swdan o hyd. Er 1990, mae Amnest wedi dogfennu 145 o ddienyddiadau o droseddwyr ifanc mewn 10 o wledydd.

**Pwynt meddwl:** Mae dienyddio pobl ifanc am droseddau y gwnaethant eu cyflawni pan roeddent dan 18 oed wedi'i wahardd o dan ddeddfau hawliau dynol rhyngwladol. Pam ydych chi'n credu bod gwledydd yn anwybyddu'r deddfau hyn? Beth ddylid ei wneud i atal yr arfer hwn?

13 **Ym mha flwyddyn wnaeth y DU ddiddymu'r gosb eithaf yn ffurfiol ar gyfer pob trosedd?**

**Ateb:** 1998, dan y Ddeddf Hawliau Dynol, er bod y dienyddiad olaf yn y DU ym 1964. Ataliodd Deddf Llofruddiaeth (Diddymu'r Gosb Eithaf) 1965 y gosb eithaf am bum mlynedd ym 1969. Pleidleisiodd y Senedd o blaid ei wneud yn barhaol ym 1969, ond nid oedd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ac nid oedd yn berthnasol i droseddau eraill â chosb marwolaeth, fel bradwriaeth ac ysbïo. Diddymwyd y gosb eithaf ar gyfer llofruddio yng Ngogledd Iwerddon ym 1973.

14 **Ar gyfartaledd, mae un dienyddiad yn digwydd bob 9 awr. Gwir neu gau?**

**Ateb:** Gwir. Nid yw hyn yn cynnwys Tsieina, lle y credir bod miloedd o ddienyddiadau.

• Bob blwyddyn, mae Amnest Rhyngwladol yn llunio adroddiad rhyngwladol ar y gosb eithaf ag ystadegau cyfredol. Gallwch ddiweddaru'r atebion hyn yn **amnesty.org/ên/what-we-do/death-penalty/**

**Ffynonellau:**

• Adroddiad Byd-eang ar Ddedfrydau Marwolaeth a Dienyddiadau 2018 Amnest Rhyngwladol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2019 **amnesty.org.uk/dpreport-2018**

• Y Ganolfan Wybodaeth am y Gosb Eithaf **deathpenaltyinfo.org**

• Dienyddiadau Pobl Ifanc er 1990 Amnest Rhyngwladol, fel yn Ebrill 2019 **amnesty.org/en/documents/act50/0233/2019/en**

# **GWERS 2** Y GOSB EITHAF A HAWLIAU DYNOL

A yw'r gosb eithaf yn torri hawliau dynol? Bydd dysgwyr yn archwilio'r safbwynt hawliau dynol cyn dadansoddi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf. Mewn ffilm, bydd dau unigolyn a ddedfrydwyd i farwolaeth er eu bod yn ddieuog yn adrodd eu hanesion, a bydd myfyrwyr yn asesu effaith euogfarnu ar gam

**Amseriad** 60 munud

**Nodau**

- Dangos dealltwriaeth o hawliau dynol cyffredinol
- Gwerthuso'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf
- Ystyried euogfarnu ar gam a'i effaith

**Bydd arnoch angen** Crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (un i bob myfyriwr). Gweler tudalen 52.
Datganiadau o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf (i'r athro/athrawes).

**FClipiau fideo:** oneforten.com/sabrina-butler (6.05 munud)
oneforten.com/john-thompson (5.50 munud)







**Sbardun** 10 munud

Fel dosbarth, crëwch fap meddwl o'r hawliau y mae gan bawb hawl iddynt, gan gadw rhestr ar y bwrdd. Dosbarthwch y crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol â'r adnodd hwn. Sut mae rhestr y dosbarth yn cymharu â'r hawliau yn y Datganiad? Pam ydym wedi methu rhai hawliau penodol, neu pam ydym wedi dewis hawliau penodol nad ydynt yn y Datganiad?

Cyfeiriwch at Erthygl 3 ac Erthygl 5. Nawr, gofynnwch: a yw hawliau dynol yn berthnasol i bawb, hyd yn oed y rhai sy'n cael eu barnu'n euog o drosedd? Pa hawliau sydd ganddynt? Pa hawliau mae'r gosb eithaf yn eu dileu? Os yw bywyd yn hawl ddynol, sut gall gwledydd barhau i ddienyddio pobl?

**Gweithgaredd 1** 20 munud

Dywedwch wrth y myfyrwyr y byddant yn symud i un ochr o'r ystafell neu'r llall gan ddibynnu ar b'un a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf. Mae angen iddynt gyfiawnhau pam maent wedi gwneud y penderfyniad hwnnw am y ddadl. Pennwch reolau â'r myfyrwyr cyn iddynt symud. Dewiswch o'r datganiadau o blaid ac yn erbyn ar dudalen 13. Arhoswch ar ôl pob datganiad i gael adborth ar pam mae'r myfyrwyr wedi dewis yr ochr honno o'r ystafell. Beth sy'n gwneud y ddadl yn wan neu'n gryf? A allant ei gwella? Sut?

**Nodyn addysgu:** Gweler y daflen ar ddatganiadau'r gosb eithaf ar dudalen 13.

**Gweithgaredd 2** 20 munud

Gwyliwch y clipiau fideo am ddau unigolyn yn UDA, a gafodd eu dedfrydu i farwolaeth ac a gafwyd yn ddieuog yn ddiweddarach. Sicrhewch fod gan y myfyrwyr eu crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wrth llaw.

**Clip 1** Cafodd Sabrina Butler ei rhyddhau o res yr angau yn yr UD. Treuliodd ddwy flynedd a naw mis ar res yr angau ym Mississippi ar ôl cael ei barnu'n euog o lofruddio ei mab ifanc. Cafodd ei rhyddhau ym 1995, pan ddarganfuwyd y bu i'w mab farw o achosion naturiol a bod y cleisiau ar ei gorff o'i hymdrechion i'w achub drwy adfywio cardio-pwlmonaidd. Nawr, mae'n brwydro yn erbyn y gosb eithaf.

**Clip 2** Treuliodd John Thompson o New Orleans 18 mlynedd yn y carchar, 14 ohonynt ar res yr angau; bu iddo fyw drwy wyth dyddiad dienyddio. Roedd mis o gael ei ddienyddio pan ddaeth ymchwilwyr o hyd i dystiolaeth a guddiwyd gan erlynyddion, a oedd yn profi nad oedd yn bosibl i John fod wedi cyflawni'r trosedd. Yn ei ail dreial, cymerodd 35 munud yn unig i'r rheithgor ei farnu'n ddieuog, a chafodd ei ryddhau. Treuliodd y 14 blynedd olaf o'i fywyd yn helpu pobl eraill a oedd wedi'u cyhuddo a'u carcharu ar gam.

Ar ôl gwylio'r clipiau, gofynnwch y cwestiynau isod i'r myfyrwyr. Atgoffwch y myfyrwyr fod ganddynt hawl i ryddid barn a mynegiant, ac y gallant arfer yr hawl hon o ran p'un a ydynt o'r farn bod y gosb eithaf yn deg ai peidio. Gofynnwch iddynt gyfiawnhau eu hatebion gan ddefnyddio eu dadleuon eu hunain a'r rhai sy'n cael eu defnyddio yn y clipiau fideo.

**Cwestiynau i'r myfyrwyr eu hateb ar ôl gwylio'r clipiau fideo**
- Sut ydych chi'n teimlo ar ôl gwylio'r ffilmiau hyn?
- Pa hawliau dynol sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn? Edrychwch ar eich crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.
- A wnaeth teuluoedd a sefydliadau ymgyrchu drostynt?
- Sut gallai'r hanes fod yn wahanol?
- Sut ydych chi'n credu oedd teuluoedd John a Sabrina yn teimlo tra'r oeddent yn y carchar? A phan gawsant eu rhyddhau?
- Beth am deuluoedd y dioddefwyr?

## Sesiwn dorfol **10 munud**

Gofynnwch i'r myfyrwyr bleidleisio eto a ydynt o blaid, yn erbyn neu'n ansicr mewn perthynas â'r gosb eithaf. A yw'r canlyniadau'n wahanol ac a yw eu barn wedi newid? Pam?

**Yn eu barn nhw:**
- A yw'r gosb eithaf yn torri hawliau dynol?  Pam neu pam ddim?
- A yw euogrwydd neu ddieuogrwydd rhywun yn effeithio ar ei farn am y gosb eithaf?
- A oes gan lywodraeth hawl i ddedfrydu pobl i farwolaeth?
- Pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl, i garcharorion ar res yr angau?
- Beth arall hoffent ei wybod am y mater hwn?

## Estyniad

- Beth mae pobl wedi'i wneud i helpu i frwydro yn erbyn y gosb eithaf?  Ymchwiliwch i achos Matsumoto Kenji ar res yr angau yn Japan, lle bu Amnest Rhyngwladol yn rhan o'r ymgyrch. Beth ddigwyddodd a beth oedd y canlyniad? **www.amnesty.org.uk/jua/matsumoto-kenji**
- Beth mae'n ei olygu i barchu hawliau dynol rhywun, hyd yn oed pan fydd wedi torri hawliau dynol rhywun arall? Trafodwch.
- Cofrestrwch i gael newyddion a diweddariadau gan Brosiect Amnest y DU yn erbyn y gosb eithaf **amnesty.org.uk/ death-penalty-project-campaign**



**Matsumoto Kenji © Private**

# GWERS 2 DATGANIADAU O BLAID AC YN ERBYN Y GOSB EITHAF

## Dadleuon pobl YN ERBYN



Y Lleian Helen Prejean © AI

- 'Mae pob un ohonom yn werth mwy na'n gweithred waethaf' (dyfyniad gan y Lleian Helen Prejean, gweithredydd yn erbyn y gosb eithaf, yn y llun ar y chwith). Mae gan bawb hawl i fywyd, fel sy'n cael ei gyhoeddi yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

- Gall llysoedd wneud camgymeriadau. Mae pobl ddiniwed yn cael eu dienyddio ac ni allwch eu codi o farw'n fyw.

- Mae ad-daledigaeth yn wallus yn foesol. 'Nid dial yw'r ateb. Yr ateb yw lleihau trais, nid achosi mwy o farwolaethau' (cyfieithiad o ddyfyniad gan Marie Deans, y cafodd ei mam-yng-nghyfraith ei llofruddio ym 1972).

- Nid yw'n ymddangos bod y gosb eithaf yn atal pobl rhag cyflawni troseddau difrifol.

- Pam ydym yn lladd pobl sy'n lladd pobl i ddangos bod lladd yn anghywir? Os ydym yn cefnogi'r gosb eithaf ar gyfer llofruddiaeth, rydym yn cefnogi llofruddiaeth, sy'n golygu ein bod ni'r un mor euog.

- Os yw rhywun yn cael ei ddedfrydu i farwolaeth, nid yw'n cael cyfle i newid ei fywyd na gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas.

## Dadleuon pobl O BLAID



Gwely pigiad marwol yn Fflorida
© Florida Department of Corrections

- Y gosb eithaf yw'r gosb briodol i'r rhai sy'n lladd pobl: llofruddwyr, terfysgwyr, delwyr cyffuriau. Dylai'r rhai sy'n lladd pobl gael eu lladd: bywyd am fywyd.

- Mae'r gosb eithaf yn arf ataliol. Mae'n siŵr fod yr ofn o gael eu dienyddio yn atal troseddwyr rhag llofruddio. Yn sicr, ni fydd unrhyw un sy'n cael ei ddienyddio yn lladd unrhyw un byth eto.

- Mae'n fwy dyngarol i ddedfrydu rhywun i farwolaeth na'i gadw dan glo am flynyddoedd.

- Mae'r gosb eithaf yn rhoi diweddglo i deuluoedd dioddefwyr.

- Os yw rhywun yn llofruddio rhywun arall, mae'n ildio ei hawliau dynol, gan gynnwys yr hawl i fyw ei hun.

# **GWERS 3** DEDFRYD MARWOLAETH

Bydd myfyrwyr yn trafod ac yn gwerthuso pum astudiaeth achos ar res yr angau i ddangos sut mae'r gosb eithaf yn effeithio ar fywydau go iawn. Mae'r rhain yn cynnwys achos Troy Davies, a gafodd ei ddienyddio drwy bigiad marwol ym Medi 2011, a Noura Hussein, merch yn ei harddegau a gafodd ddedfryd marwolaeth yn 2018 am ladd ei gŵr.

**Amseriad** 60 munud

**Nodau**
- Darllen a thrafod achosion unigol ar res yr angau
- Gwerthuso dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf
- Cwestiynu a yw'r gosb eithaf yn torri hawliau dynol

**Bydd arnoch angen**
Nodiadau'r astudiaethau achos (un i bob grŵp)
Crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (un i bob grŵp).
Gweler tudalen 52.

**Nodyn addysgu**
Darllenwch yr astudiaethau achos a rhowch rybudd priodol o'r cynnwys cyn eu defnyddio.

**Gweithgaredd 1** 15 munud

Atgoffwch y myfyrwyr beth yw'r gosb eithaf ac am ddiffiniad Amnest Rhyngwladol. Hefyd, esboniwch y term rhes yr angau. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch astudiaeth achos i bob grŵp, ynghyd â chrynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Esboniwch mai achosion go iawn yw'r rhain.

Gofynnwch i bob grŵp ddarllen ei astudiaeth achos ac amlygu'r rhannau pwysicaf. Rhaid iddynt ddefnyddio eu crynodeb o'r Datganiad i weithio allan pa erthyglau neu hawliau dynol sy'n cael eu cyfyngu neu eu diddymu.

**Efallai yr hoffent wneud nodiadau ar y canlynol hefyd:**
• Pam y gallai hyn fod wedi digwydd? • Pa faterion mae'r achos yn eu hamlygu?
• Beth yw'r gosb briodol ar gyfer y trosedd? • Beth fyddai wedi atal y trosedd?
• Sut mae hyn yn gwneud iddynt deimlo? • Pa gwestiynau byddant yn eu gofyn i'r unigolyn yn eu hastudiaeth achos? Ei deulu/theulu? Y barnwr a'i farnodd/barnodd yn euog?

Pan fydd y grwpiau wedi gorffen ateb eu cwestiynau, gofynnwch iddynt gyflwyno crynodeb o'r achos, a rhannu nodiadau a syniadau o fewn eu grwpiau. Cymerwch ddetholiad o adborth gan y dosbarth cyfan.

**Gweithgaredd 2** 20 munud

Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r myfyrwyr greu rhaglen radio yn para 2 funud, sy'n amlygu'r manylion allweddol yn ymwneud â'r gosb eithaf. Os oes amser yn y cwricwlwm, gellid recordio'r rhain hefyd a gallai cyfoedion eu hasesu yn y wers nesaf. Dylai pob adroddiad radio gynnwys:
1 Diffiniad o'r gosb eithaf.
2 Rhai astudiaethau achos o'r wers, ynghyd ag esboniad o sut mae'r rhain yn cysylltu â'r gosb eithaf.
3 Penderfyniad o ran p'un a ddylid defnyddio'r gosb eithaf, a'r rhesymau am hynny.
4 Gwybodaeth am sut mae'r gosb eithaf yn effeithio ar aelodau eraill o'r teulu neu deulu'r dioddefwr (er enghraifft, achos Billy Moore).

**Sesiwn dorfol 10 munud**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu trydariad darbwyllol â 140 nod i hysbysebu eu rhaglen radio, neu gofynnwch iddynt berfformio eu rhaglen radio i'w hasesu gan eu cyfoedion gan ddefnyddio dwy seren a dymuniad.

Creu darn o waith celf neu ddyluniad graffig, ysgrifennu cân neu gerdd, neu dynnu llun i grynhoi'r hyn maent wedi'i ddysgu am y gosb eithaf.

**Estyniad**

Sut gwnaeth crefydd ddylanwadu ar achos Billy Moore? Pa gredoau a anogodd teulu'r dioddefwr i faddau iddo ac i'r Fam Teresa ei gefnogi?


© Preifat

**Yn ei geiriau ei hun**
'Pan gaf fy rhyddhau, hoffwn astudio'r gyfraith i amddiffyn pobl eraill sydd wedi'u gormesu.'

# ASTUDIAETH ACHOS 1

## Noura Hussein, Y Swdan

**Yn 2018, roedd y ferch yn ei harddegau o'r Swdan yn wynebu dedfryd marwolaeth am ladd ei gŵr a oedd wedi'i cham-drin.**

Roedd Noura yn 16 oed pan gafodd ei gorfodi i briodi dyn hŷn a ddewiswyd gan ei thad. Ffodd Noura a chafodd loches yn nhŷ ei modryb; roedd arni eisiau gorffen ei haddysg a hyfforddi'n athrawes. Ond ar ôl tair blynedd, cafodd ei thwyllo gan aelodau o'i theulu i fynd yn ôl at ei gŵr.

Ym Mai 2017, cafodd Noura ei threisio gan ei gŵr â chymorth gan ei ddau frawd a'i gefnder, a'i daliodd i lawr. Y diwrnod canlynol, ceisiodd ei threisio eto, ond amddiffynnodd Noura ei hun â chyllell. Bu i'w gŵr farw o'i anafiadau.

Trodd Noura at ei theulu, ond aethant i swyddfa'r heddlu a'i diarddel. Cafodd ei chyhuddo o lofruddiaeth ac, ym Mai 2018, cafodd ei dedfrydu i farwolaeth drwy grogi.

Apeliodd cyfreithwyr Noura, a oedd yn 19 oed erbyn hynny, a chafodd deiseb fyd-eang, a oedd yn galw iddi gael ei rhyddhau, 1 miliwn o lofnodion. Ymunodd pobl â phroffil uchel â'r ymgyrch i wrthdroi ei dedfryd, gan gynnwys Julia Gillard, cyn Brif Weinidog Awstralia.

Ym Mehefin 2018, cyfnewidiodd Llys Apêl y Swdan y gosb eithaf yn erbyn Noura Hussein i bum mlynedd yn y carchar ac iawndal sy'n cael ei alw'n diya, neu'n 'waedbris', o 337,500 o bunnoedd Swdanaidd (tua £6,100).

Yn y carchar, mae Noura wedi ymrestru ar gwrs dysgu o bell er mwyn iddi gyflawni ei breuddwyd o ddod yn gyfreithiwr.

Mae ei hachos yn amlygu methiant cyfraith a system llysoedd y Swdan i amddiffyn menywod a merched rhag priodasau dan orfod, priodasau cyn pryd a thrais rhywiol priodasol.


© AI

**Yn ei eiriau ei hun**
'Gwariodd talaith Georgia dros $1.5 miliwn yn ceisio fy lladd. Pe byddai rhywun wedi buddsoddi $100,000 yn unig yn fy mywyd yn blentyn, ni fyddwn i erioed wedi cyrraedd lle'r oeddwn i. Y tlodi, yr hiliaeth, y diffyg addysg – mae'n effeithio ar blant. Byddai'n wahanol pe byddech chi'n rhoi siawns iddynt a chyfle iddynt wneud yn well.'

# ASTUDIAETH ACHOS 2

## Billy Moore, UDA

**Bu i Billy ladd Fredger Stapleton, a oedd yn 77 oed, a threulio 16 blynedd ar res yr angau yn Georgia, UDA, nes i deulu Stapleton ymyrryd i'w ryddhau.**

Ym 1974, roedd Billy Moore yn 22 oed ac yn beiriannydd trydanol dan hyfforddiant yn y fyddin, ac roedd arno angen arian i ofalu am ei fab, a oedd yn dair oed. Ar ôl defnyddio'r holl ffynonellau cyfreithlon a oedd ar gael iddo, gan gynnwys ei gyflogwyr yn y fyddin a'r Groes Goch, cafodd Billy, yr oedd ei dad ei hun wedi treulio 13 blynedd yn y carchar, ei demtio gan ladrad 'rhwydd'.

Cyfarfu Billy â dyn a ddywedodd wrtho ei fod yn adnabod rhywun a oedd â $30,000 y gallant ei gymryd ac na fyddai unrhyw un yn cael ei frifo.  Methodd yr ymgais gyntaf i ladrata, a gadawodd y ddau ohonynt. Aeth Billy yn ôl yn ddiweddarach. Daeth Fredger Stapleton, 77 oed, allan o ystafell a saethu ato.  Saethodd Billy yn ôl a'i ladd. Cafodd ei arestio'r diwrnod canlynol, cyfaddefodd i'r trosedd, plediodd yn euog a chafodd ei ddedfrydu i farwolaeth.

Yn ddiweddarach, cafodd Billy gofnodion y llys, a oedd yn cynnwys enwau a chyfeiriadau nifer o aelodau teulu Fredger Stapleton. Ysgrifennodd atynt i ymddiheuro. Ysgrifennodd y teulu yn ôl gan ddweud eu bod yn bobl Gristnogol a'u bod yn maddau iddo. Parhaodd y teulu i ysgrifennu at Billy dros y blynyddoedd, a siarad ag ef dros y ffôn hyd yn oed.

Pan gollodd Billy bob un o'i apeliadau, apeliodd teulu Stapleton am ei fywyd. Siaradodd y bwrdd parôl â'r Fam Teresa hefyd, sef lleian Babyddol a dyngarwr a oedd wedi ymroi i helpu pobl dlawd, a oedd wedi mynegi diddordeb yn ei achos. Gofynnodd i'w ddedfryd marwolaeth gael ei chyfnewid.

Ar 22 Awst 1990, ar ôl 15 gorchymyn atal gweithredu, ac ar ôl bod o fewn saith awr o gael ei ladd â thrydan ar un adeg, cafodd dedfryd Billy ei newid i ddedfryd oes. Ym 1992, cafodd ei ryddhau ar barôl a gadawodd y carchar.

Billy yw'r unig garcharor a blediodd yn euog o lofruddiaeth i gael ei ryddhau o res yr angau. Erbyn hyn, mae'n weinidog ordeiniedig sy'n teithio ledled y byd yn siarad am rym maddeuant ac yn ymgyrchu dros ddiddymu'r gosb eithaf a'r artaith meddwl o fod ar res yr angau. Mae mewn cysylltiad â theulu Stapleton o hyd.

## Diffiniadau

**Gorchymyn atal gweithredu**
Oedi wrth weithredu'r dienyddiad a orchmynnwyd gan lys.

**Rhes yr angau**
Bloc neu adran yn y carchar i'r rhai sydd â dedfryd marwolaeth.



# ASTUDIAETH ACHOS 3
## Mirza Tahir Hussain, Pacistan

**Treuliodd glaslanc o Leeds 18 o flynyddoedd ar res yr angau ym Mhacistan.**

Yn Rhagfyr 1988, hedfanodd Mirza, 18, a oedd â dinasyddiaeth ddeuol Brydeinig a Phacistanaidd, i Bacistan i ymweld â pherthnasau. Cafodd ei gasglu gan yrrwr tacsi a estynnodd gwn, yn ôl y sôn, a cheisio ymosod arno. Taniodd y gwn wrth iddynt ymladd, gan ladd y gyrrwr. Gyrrodd Mirza y tacsi a'r corff i'r orsaf heddlu, lle cafodd ei arestio am lofruddiaeth, er iddo ddadlau ei fod yn amddiffyn ei hun.

Cafodd Mirza ei farnu'n euog o lofruddiaeth a'i ddedfrydu i farwolaeth yn Islamabad ym Medi 1989, ac yna ei ryddfarnu gan lys uwch ym 1996. Fodd bynnag, cafodd y rhyddfarn ei gwrthdroi gan lys Islamaidd, a chafodd ei farnu'n euog o ladrad arfog, gan ei ddedfrydu i farwolaeth ym 1998 a gwrthod apeliadau pellach.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd ei deulu gefnogaeth gan ASau, ASEau a charfannau pwyso, gan gynnwys Fair Trials ac Amnest Rhyngwladol, i apelio am faddeuant gan yr arlywydd. Ymgyrchodd brawd Mirza, Amjad Hussein, yn ddi-baid dros ei ryddhau. Cynhaliwyd protestiadau mewn gwahanol wledydd. Cododd y Tywysog Siarl a'r prif weinidog (Tony Blair) yr achos ag Arlywydd Pervez Musharraf o Bacistan.

Ym Mai 2006, cyhoeddodd yr Arlywydd Musharraf y gorchymyn atal gweithredu cyntaf o dri. Ar 16 Tachwedd 2006, defnyddiodd ei bwerau i gyfnewid dedfryd marwolaeth Mirza i ddedfryd oes. O dan reolau dedfrydu Pacistan, mae dedfryd oes yn gyfwerth â 14 o flynyddoedd – gan olygu bod Mirza wedi gwneud ei dymor yn y carchar. Cafodd ei ryddhau a dychwelodd i'r DU. Erbyn hynny, roedd yn 36 oed.

**Yn ei eiriau ei hun**
'Cefais bedwar dyddiad dienyddio. Roeddwn i'n lwcus. Bu i mi oroesi rhes yr angau ym Mhacistan. Beth am y miloedd nad ydynt yn goroesi?'


## Diffiniadau

**Gorchymyn atal gweithredu**
Oedi wrth weithredu'r dienyddiad a orchmynnwyd gan lys.

**Rhes yr angau**
Bloc neu adran yn y carchar i'r rhai sydd â dedfryd marwolaeth.




**Protest i atal Mirza Tahir Hussein rhag cael ei ddienyddio, dan arweiniad ei frawd, Amjad (canol), y DU**


© Preifat

**Yn ei eiriau ei hun**
'Nid yw'r frwydr am gyfiawnder yn dod i ben â mi. Mae'r frwydr hon i bob Troy Davis a ddaeth o'm blaen a phob Troy Davis a fydd yn dod ar fy ôl.'

# ASTUDIAETH ACHOS 4
## Troy Davis, UDA

**Roedd Troy ar res yr angau yn Georgia yn 19 oed am lofruddiaeth roedd yn mynnu nad oedd wedi'i gyflawni. Cafodd ei ddienyddio yn 2011.**

Yn ystod oriau mân y bore ar 19 Awst 1989, bu ymladd mewn maes parcio yn Savannah, Georgia, a chafodd dyn digartref, Larry Young, ei guro. Rhedodd Mark MacPhail, swyddog heddlu nad oedd ar ddyletswydd, draw i helpu, ond cafodd ei saethu'n farw.

Ym 1991, cafodd Troy Davis ei ddedfrydu i farwolaeth am ei lofruddio. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ffisegol yn cysylltu Troy â'r trosedd, ac aeth saith o'r naw o dystion, y defnyddiwyd eu tystiolaeth i'w farnu'n euog, ymlaen i wadu neu newid eu tystiolaeth. O'r ddau dyst a oedd yn weddill, un ohonynt oedd y prif unigolyn arall a oedd dan amheuaeth. Yn y treial, cyfaddefodd Troy ei fod ar y safle, ond datganodd ei fod yn ddieuog bob tro.

Yn ystod ei 19 o flynyddoedd ar res yr angau, wynebodd Troy dri dyddiad dienyddio. Ym Mehefin 2010, cafodd gyfle i gyflwyno tystiolaeth newydd a all brofi ei fod yn ddieuog. Fodd bynnag, er gwaethaf amheuon parhaus ynghylch ei euogrwydd, barnodd y barnwr yn ei erbyn, a'i roi'n ôl ar y trywydd o gael ei ddienyddio.  Ar 21 Medi 2011, cafodd ei ddienyddio drwy bigiad marwol.

Brwydrodd chwaer Troy, Martina Davis-Correia, yn ddyfal i ryddhau ei brawd. Ymunodd Amnest Rhyngwladol â'r ymgyrch yn 2007, gan gyhoeddi adroddiad ar ei achos yn manylu ar batrwm o'r heddlu'n gorfodi tystion cyn y treial. Cynhaliwyd gwylfeydd a digwyddiadau ledled y byd yn galw am drugaredd. Deisebodd llawer o gefnogwyr yr awdurdodau yn nhalaith Georgia i beidio â dienyddio Troy, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch ei euogfarn.



© AI




# ASTUDIAETH ACHOS 5

## Moses Akatugba, Nigeria

**Roedd Moses yn fachgen ysgol 16 oed pan gafodd ei arestio am ddwyn ffonau symudol.**

Yn 2005, roedd Moses yn 16 oed ac yn aros yn awyddus am ganlyniadau ei arholiadau ysgol uwchradd pan newidiodd ei fywyd. Cafodd ei arestio gan Fyddin Nigeria, ei saethu yn ei law a'i holi. Cafodd ei symud i orsaf heddlu lle cafodd ei arteithio eto. Roedd yr heddlu'n amau bod Moses wedi dwyn tri ffôn symudol, arian a thalebau mewn lladrad arfog. Mae wedi gwadu'r cyhuddiadau hyn erioed. Ond gorfododd yr heddlu iddo lofnodi dau gyfaddefiad a ysgrifennwyd ymlaen llaw, a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach fel tystiolaeth yn ei dreial.

Treuliodd Moses wyth mlynedd yn y carchar heb dreial, cyn iddo gael ei ddedfrydu i farwolaeth drwy grogi. Nid ymddangosodd y swyddog heddlu a ymchwiliodd i'r achos yn y llys. Mae defnyddio'r gosb eithaf ar gyfer troseddau gan bobl dan 18 oed wedi'i wahardd dan ddeddfau rhyngwladol. Hefyd, ni ddylai unrhyw 'gyfaddefiad' a geir drwy artaith gael ei ganiatáu fel tystiolaeth mewn llys.

Ar 28 Mai 2015, cafodd Moses faddeuant ar ôl bron i 10 mlynedd yn y carchar. Ymunodd llawer o garfannau pwyso â'r ymgyrch i'w ryddhau, gan gynnwys Amnest Rhyngwladol, a phrotestiodd actifyddion ifanc yn y llysgenadaethau Nigeraidd. Yn yr ychydig fisoedd cyn iddo gael ei ryddhau, pwysodd pobl ar lywodraethwr y dalaith i drugarhau. Anfonwyd dros 800,000 o negeseuon dan actifyddion ledled y byd. Mae Moses wedi dychwelyd adref ac wedi ailddechrau ei fywyd.

**Yn ei eiriau ei hun**

'Rydw i wir eisiau newid cymaint o bethau yn y dyfodol a dwi'n credu, trwy fy astudiaethau, y gallaf wneud hynny. Rydw i'n edrych ymlaen at weld dyfodol lle bydd gan bob dyn a bob menyw hawliau llawn.'




**Ymgyrch actifyddion ifanc i ryddhau Moses Akatugba © AI**

# **GWERS 4** PLANT A'R GOSB EITHAF

Mae llawer o droseddwyr ifanc ar res yr angau, ac mae rhai gwledydd yn dedfrydu plant i farwolaeth o hyd, er bod dienyddio unrhyw un dan 18 oed am gyflawni trosedd yn anghyfreithlon. Gyda chlipiau fideo grymus a hanesion go iawn, bydd myfyrwyr yn archwilio eu barn eu hunain: a ddylai'r gosb eithaf fod yn berthnasol i blant?

## Amseriad

60 munud

## Nodau

- Dysgu am hawliau plant
- Gwylio ffilmiau sy'n siarad yn bwerus am blant ar res yr angau
- Ystyried a yw'r gosb eithaf i blant yn deg ac esbonio eu barn

## Bydd arnoch angen

Map troseddwyr ifanc y gosb eithaf
Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn **unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights** (un i bob myfyriwr)

**Clipiau fideo:** *Yemen: juvenile offenders face execution* (YouTube, chwiliwch am y teitl) 3.04 munud
*Behnoud's story* (vimeo.com/49304204) 5.40 munud

## Nodyn addysgu

Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â'r gwasanaeth Bywyd am Fywyd yn yr adnodd hwn, sy'n edrych ar droseddwyr ifanc ar res yr angau, yn enwedig achos Mariam wrth iddi aros i gael ei dienyddio. Gweler y rhestr gynnwys.

Mae gan y ffilmiau gynnwys emosiynol, felly mae'n well eu gwylio cyn y gweithgaredd. Bydd angen i chi rybuddio myfyrwyr am y cynnwys cyn eu dangos iddynt.

## **Sbardun** 10 munud

Crëwch fap meddwl o'r hawliau y mae'r dosbarth yn credu y dylai plant eu cael, ac ysgrifennwch restr ar y bwrdd. Dosbarthwch y crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'u cymharu.

Edrychwch ar Erthygl 37 y Confensiwn, sy'n dweud na ddylid dedfrydu unrhyw un i farwolaeth na bywyd yn y carchar heb y posibilrwydd o gael ei ryddhau. Esboniwch ei fod yn anghyfreithlon i blant dan oed gael eu dienyddio dan gyfraith ryngwladol am drosedd a gyflawnwyd pan roeddent dan 18 oed, ond bod rhai gwledydd yn anwybyddu hyn. Pa wledydd? Pam? Dangoswch y map – mae'n amlygu'r gwledydd sydd wedi dienyddio pobl ifanc er 2000.

## **Gweithgaredd 1** 20 munud

Gwyliwch y clipiau fideo.

**Troseddwyr ifanc yn Yemen yn wynebu cael eu dienyddio.** Mae'n archwilio profiadau plant ar res yr angau yn Yemen a all wynebu mintai saethu ar unrhyw adeg. Cynhyrchwyd y ffilm gan Human Rights Watch.

**Stori Behnoud.** Animeiddiad gan Amnest sy'n adrodd hanes cyfreithiwr yn Iran i achub Behnoud Shojaee, dyn ifanc ar res yr angau. **Rhybudd am y cynnwys:** Mae'n emosiynol a chafodd Behnoud ei ddienyddio yn 2009 pan roedd yn 21 oed, ar ôl i deulu ei ddioddefwr wrthod rhoi maddeuant iddo.

Rhowch amser i'r myfyrwyr roi adborth ar eu hymatebion. Sut maent yn teimlo? Sut maent yn credu roedd Behnoud yn teimlo ar ôl i'w ddyddiad dienyddio gael ei bennu a'i ohirio deirgwaith? Sut fydden nhw'n teimlo pe byddent yn gyfreithiwr Behnoud, ei chwaeth neu'n rhieni'r dioddefwr? Pam maent yn credu y bu i rieni'r dioddefwr ddewis ei ddienyddio? Beth gellid fod wedi'i wneud i newid y canlyniad?



**Behnoud Shojaee**
**© www.stopchildexecutions.com**

Atgoffwch y myfyrwyr fod cyfraith ryngwladol, y mae Yemen ac Iran wedi'i llofnodi, yn gwahardd dienyddio unigolion am droseddau a gyflawnwyd pan roeddent dan 18 oed yn ddieithriad. Pam mae Yemen ac Iran yn anwybyddu hyn? A ddylai llywodraethau atal hyn a dwyn gwledydd i gyfrif? Sut? A yw dedfryd o fywyd yn y carchar heb barôl yn ddewis tecach na'r gosb eithaf? Pam?

**Gweithgaredd 2** 20 munud

O'r clipiau fideo a'r hawliau plant a drafodwyd, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu datganiadau, geiriau a theimladau sy'n aros yn eu meddyliau. Gan ddefnyddio'r deunydd hwn, gofynnwch iddynt greu cerdd neu boster yn dangos eu myfyrdodau am blant a'r gosb eithaf.

Fel arall, gallai myfyrwyr ysgrifennu traethawd un tudalen yn dwyn y teitl: A ddylai'r gosb eithaf fod yn berthnasol i blant?

Gellid cyflwyno'r gwaith hwn i'r dosbarth yn ddiweddarach.

**Cwestiynau i'w hystyried**
A ddylai oed gael ei gymryd i ystyriaeth? A ddylai plant gael eu trin yn wahanol i oedolion, hyd yn oed os ydynt wedi cyflawni'r un trosedd? Beth yw'r dewisiadau eraill? A yw plant yn fwy tebygol o gael eu hadsefydlu? A ddylai'r terfyn oed gael ei ostwng? Mae dienyddio unigolion am droseddau y gwnaethant eu cyflawni dan 18 oed yn torri cyfraith ryngwladol. Beth ddylid ei wneud i sicrhau bod llywodraethau'n cadw at y gyfraith? Sut gallech chi weithredu ar y mater hwn?

**Sesiwn dorfol** 10 munud

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis y frawddeg fwyaf grymus o'u gwaith. Dewiswch bedwar neu bump o fyfyrwyr o'r dosbarth a rhowch binnau ffelt iddynt. Dywedwch wrth y dosbarth fod rhaid ysgrifennu pob un o'u brawddegau ar y bwrdd gwyn mewn tri munud. Rhaid i'r sgrifellwyr ysgrifennu'n gyflym. Ar ôl eu hysgrifennu, cyfrifwch sawl un sydd o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf i blant, a thrafodwch fel dosbarth. Sut gellir gwella'r brawddegau? Pam?

**Estyniad**


Ymchwiliwch i ddefnydd De'r Swdan o'r gosb eithaf ar blant: **www.amnesty.org.uk/south-sudan-dp-children**

Dychmygwch fod gennych un munud i ddarbwyllo'r awdurdodau i roi'r gorau i'r arfer hwn. Beth fyddech chi'n ei ddweud? Pam?



**Protest i atal dienyddio plant yn Iran**
**© AI/Bilan**

# TROSEDDWYR IFANC Y GOSB EITHAF





Mae defnyddio'r gosb eithaf ar gyfer troseddau sy'n cael eu cyflawni gan bobl dan 18 oed wedi'i wahardd o dan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, ond mae rhai gwledydd yn dienyddio troseddwyr ifanc o hyd.

Er 2000, bu 126 o achosion hysbys o ddienyddio troseddwyr ifanc mewn naw o wledydd. Mae tair o'r gwledydd hyn wedi newid eu cyfreithiau i wahardd yr arfer hwn. Mae Iran wedi dienyddio mwy na ddwywaith yn fwy o droseddwyr ifanc na'r naw gwlad arall gyda'i gilydd. Yn 2018, dienyddiwyd wyth o droseddwyr ifanc – saith yn Iran ac un yn Ne'r Swdan.

**ALLWEDD**

- (melyn) Gwledydd lle dienyddiwyd troseddwyr ifanc er 2000
- 1 Nifer y dienyddiadau

## TROSEDDWYR IFANC




**Mehdi Sohrabifar** ac **Amin Sedaghat**, Iran, roedd y ddau ohonynt yn 15 oed adeg y trosedd, cawsant eu dienyddio'n gyfrinachol yn 2019



**Zeinab Sekaanvand**, Iran, 17 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2018




**Ali Kazemi**, Iran, 15 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2018




**Rizana Nafeek**, Sawdi Arabia, 17 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2013



**Adil Muhammad Saif al-Ma'amari**, Yemen, 16 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2007



**Toronto Patterson**, UDA, 17 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2002



**Chris Thomas**, UDA, 17 oed adeg y trosedd, dienyddiwyd yn 2000

# **GWERS 5** HIL A'R GOSB EITHAF

Bu rhagfarn hiliol yn fater mewn dadleuon am y gosb eithaf erioed. Mae Amnest wedi dadlau ers amser maith bod y gosb eithaf yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol o bobl, yn enwedig dynion duon yn yr Unol Daleithiau a gweithwyr ymfudol yn Sawdi Arabia. Bydd myfyrwyr yn edrych ar y diffiniad ac enghreifftiau o wahaniaethu. Byddant yn archwilio sut gall gwahaniaethu ddigwydd ym mhroses y gosb eithaf.

## Amseriad

60 munud

## Nodau

- Deall termau allweddol sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb
- Dadansoddi tystiolaeth yn ymwneud â'r gosb eithaf a hil
- Ysgrifennu am sut a phryd y gall gwahaniaethu ddigwydd

## Bydd arnoch angen

Cyfatebu allweddeiriau a diffiniadau (taflen torri allan)
Crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (i'r athro/athrawes) – gweler tudalennau 52-53. Taflen waith y Broses Gyfreithiol (un i bob pâr o fyfyrwyr)

**Clipiau fideo:** *My Last Day – Anthony Graves* (YouTube) 2.12 munud
*Interview with Anthony Graves* (YouTube) 1.57 munud
Taflen astudiaeth achos Anthony Graves (dosbarthwch neu ddarllenwch yn uchel)

**Archwiliwch achos Anthony Graves, a ryddhawyd o res yr angau**



**Nodyn i athrawon:** Sicrhewch eich bod yn pennu rheolau â'r dosbarth. Esboniwch fod hwn yn lle agored, diogel ac anfarnol a bod angen i fyfyrwyr fod yn ystyriol o'u sylwadau a sicrhau eu bod yn defnyddio termau priodol wrth drafod hiliaeth.

Atgoffwch y disgyblion, pan fyddwch yn archwilio hiliaeth, y bydd gan bobl brofiad byw ohoni a'ch bod ar gael i drafod unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r wers yn fanylach y tu allan i'r wers.

## **Sbardun** 15 munud

Cyflwynwch y cysyniad o wahaniaethu i'r myfyrwyr. Rhowch allweddair neu ddiffiniad i bob myfyriwr. Rhaid i'r myfyrwyr gyfatebu'r diffiniadau â'r allweddeiriau cywir. Gweler y daflen cyfatebu allweddeiriau a diffiniadau.

Pan fydd pawb wedi dod o hyd i'w pâr, gofynnwch iddynt rannu eu diffiniadau. A allant roi unrhyw enghreifftiau o wahaniaethu maent wedi'u gweld yn bersonol, ar y newyddion, mewn stori, cân neu mewn sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol? Pam y mae'n gwahaniaethu? Sut mae'n gwneud iddynt deimlo?

Gallech chi drin grŵp o fyfyrwyr yn annheg i egluro'r pwynt. Cynigiwch rywbeth dymunol i hanner y dosbarth e.e. sticer, teilyngdod. Gofynnwch i'r hanner na chafodd unrhyw beth sut mae'n teimlo i gael eu trin fel hyn? A yw'n deg? A yw gwahaniaethu'n broblem yn ein cymdeithas? Pam?

Esboniwch i'r myfyrwyr fod gwahaniaethu wedi'i wahardd o dan gyfraith ryngwladol a safonau rhyngwladol, fel y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Dylai pawb fod â'r un hawliau dynol heb wahaniaethu. Cyfeiriwch at Erthygl 2: 'Mae gan bawb hawl i'r holl hawliau a rhyddfreiniau a nodir yn y Datganiad hwn heb unrhyw wahaniaethu o gwbl'. Ni ddylech gael eich amddifadu o unrhyw un o'ch hawliau oherwydd eich hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd neu farn wleidyddol. Ni ddylai fod o bwys ym mha wlad y cawsoch eich geni, pa ddosbarth cymdeithasol rydych yn perthyn iddo na pha mor gyfoethog neu dlawd rydych.

**Prif Weithgaredd** 20 munud (gall bara'n hwy)

Gofynnwch i'r dosbarth ddyfalu faint o bobl wynion sydd ar res yr angau yn UDA o gymharu â phobl dduon. Ar ôl gwrando ar eu hatebion, datgelwch yr ystadegau canlynol:
Gwyn 42%
Affricanaidd-Americanaidd 42%
Sbaenig 13%
Arall 3%
(Ffynhonnell: **deathpenaltyinfo.org**, Mai 2019).

Sut mae hyn yn cymharu â'r boblogaeth gyfan? Ateb:
Gwyn 60%
Sbaenig 18%
Affricanaidd-Americanaidd 13%
Arall 10%
(Ffynhonnell: **census.gov**, 2018)

Y casgliad yma yw bod pobl Affricanaidd-Americanaidd wedi'u gorgynrychioli ar res yr angau sy'n awgrymu, yn aml, bod dedfryd marwolaeth yn dibynnu ar gefndir ethnig y diffynnydd a'r dioddefwr.

Er 1977, pan ailddechreuodd y gosb eithaf ar ôl bwlch o 10 mlynedd, rhoddwyd dedfryd marwolaeth i bron i 80 y cant o'r diffynyddion ar res yr angau a ddienyddiwyd am ladd dioddefwyr gwynion, er bod bron i hanner yr holl bobl sy'n cael eu llofruddio yn yr UD yn Affricanaidd-Americanaidd.

Mae nifer o astudiaethau wedi dod i'r casgliadau sylfaenol canlynol:
1 Pan mae'r dioddefwr yn wyn, caiff y gosb eithaf ei rhoi'n amlach na phan mae'r dioddefwr yn ddu.
2 Mae'r tebygolrwydd o ddedfryd marwolaeth sawl gwaith yn uwch mewn achosion lle mae pobl dduon yn lladd pobl wynion nag mewn achosion lle mae pobl wynion yn llall pobl dduon.

'O'r cyhuddiadau cychwynnol i fargen pledio i ddedfryd rheithgor, mae pobl Affricanaidd-Americanaidd yn cael eu trin yn fwy llym pan maen nhw'n ddiffynyddion, a rhoddir llai o werth ar eu bywydau pan maent yn ddioddefwyr.'
**Amnest Rhyngwladol UDA**

Ar 11 Hydref 2018, daeth Washington yr 20fed talaith i ddiddymu'r gosb eithaf pan ddyfarnodd ei Llys Goruchaf yn unfrydol bod y gosb eithaf yn torri cyfansoddiad y dalaith oherwydd y caiff ei 'defnyddio mewn modd mympwyol â gogwydd hiliol.'

Holwch y dosbarth pam y maent yn credu bod gwahaniaethu hiliol yn digwydd yn achosion y gosb eithaf? A allant enwi dri ffactor hiliol a all ddylanwadu ar sut caiff y gosb eithaf ei gweinyddu? Datblygwch yr ateb hwn drwy symud ymlaen i'r prif weithgaredd.

## Prif Weithgaredd 2 20 munud

I ddeall ble a sut mae gwahaniaethu'n digwydd ym mhroses y gosb eithaf, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau gan ddefnyddio taflen Y Broses Gyfreithiol. Mae'r daflen yn dangos y bobl allweddol ar bob cam o'r broses, o arestio a chyhuddo i'r treial.

Gan ddefnyddio'r daflen waith hon, dylai myfyrwyr ystyried sut gallai gwahaniaethu yn erbyn grwpiau hiliol ddigwydd yn ystod y camau hyn, a beth allai fod yn ffynonellau gwahaniaethu.

Ar ôl iddynt orffen, cymerwch adborth gan y dosbarth a nodwch lle gallai gwahaniaethu ddigwydd yn y broses hon. Gallai edrych fel hyn:

**1 Penderfyniad cyhuddo:** Mewn taleithiau sydd â'r gosb eithaf, erlynyddion sirol lleol sy'n penderfynu p'un a ddylid ceisio'r gosb eithaf ai peidio, yn gyffredinol.

**2 Treial**

**a) Rheithwyr:** Pobl gyffredin yw rheithwyr, a all fod â chamsyniadau a rhagfarnau a all effeithio ar eu gallu i gynnig rheithfarnau teg, diduedd. Mae astudiaethau wedi dangos, mewn llawer o achosion sydd â diffynyddion duon, bod erlynyddion wedi creu rheithgorau â phobl wynion yn unig er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol o gael euogfarn a dedfryd marwolaeth.

**b) Cyfreithwyr amddiffyn:** Mae bron pawb sydd wedi cyflawni troseddau sydd â chosb marwolaeth yn byw mewn tlodi, ac mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar gyfreithwyr a benodir gan y llys i'w hamddiffyn. Mae gan gyfreithwyr a benodir gan y llys faich achosion mawr, felly mae ansawdd y gynrychiolaeth gyfreithiol yn sylweddol is (gwahaniaethu anuniongyrchol). Gallant fod yn rhagfarnllyd neu ddangos diffyg sensitifrwydd diwylliannol tuag at grwpiau lleiafrifol. Mae hyn oll yn effeithio ar allu'r twrnai i amddiffyn cleientiaid yn briodol.

**(c) Barnwyr:** Er gwaethaf y rhagdybiaeth y dylai barnwyr lywyddu materion mewn modd diduedd, swyddogion etholedig yw barnwyr treialon yn UDA, gan mwyaf, ac efallai na fyddant yn gweinyddu'n niwtral, er gwaethaf eu swydd.

## Gweithgaredd ychwanegol 20 munud

Mae ymchwil Amnest yn dangos bod awdurdodau Sawdi Arabia yn gwahaniaethu ar sail genedlaethol ac ethnig wrth gyflawni dienyddiadau, a bod y gosb eithaf yn cael ei defnyddio yn erbyn y rhai sydd â'r gallu lleiaf i fanteisio ar eu hawliau.

Mae cyfran uchel o'r rhai sy'n cael eu dienyddio yn Sawdi Arabia yn ddinasyddion tramor, sef gweithwyr ymfudol gan mwyaf o wledydd tlawd a gwledydd sy'n datblygu yn Affrica ac Asia. Yn rhy aml, ni chânt unrhyw gymorth cyfreithiol, nid ydynt yn gallu siarad iaith yr awdurdodau na dilyn trafodion y llys, sy'n cael eu cynnal mewn Arabeg, a chânt eu gorfodi i roi 'cyfaddefiadau' ffug drwy eu harteithio. Yn aml, nid ydynt yn deall eu hawliau na'r rhesymau pam y maent wedi'u harestio na'r cyhuddiadau yn eu herbyn. Hefyd, maent yn annhebygol o gael maddeuant, sef opsiwn sydd ar gael i'r rhai sy'n gallu dylanwadu ar berthnasau dioddefwyr drwy rym, arian a chysylltiadau teuluol a brenhinol. Mae Sawdïad hyd at wyth gwaith yn fwy tebygol o osgoi dienyddio drwy diyya neu 'waedbris' na thramorwr. Mae dinasyddion tramor yn cyfrif am tua chwarter poblogaeth y wlad.

Trafodwch y manteision mae dinasyddion tramor yn eu hwynebu ym mhroses y gosb eithaf. Lle mae gwahaniaethu'n digwydd? Beth mae angen ei wneud?

## Prif weithgaredd 3 20 munud

Gwyliwch y clip *My Last Day – Anthony Graves*, am ddyn a gafodd ei garcharu am 18 o flynyddoedd, 12 ohonynt ar res yr angau, cyn cael ei ryddhau. Rhowch rybudd am y cynnwys cyn i chi ddangos y fideo, gan ei fod yn trafod deunydd sensitif yn ymwneud

â hiliaeth, marwolaeth a'r gosb eithaf. Trafodwch y canlynol â'r myfyrwyr:
1) Sut beth oedd bod ar res yr angau?
2) Pam gallai carcharorion gael trafferth â'u hiechyd lles?
3) Sut fyddai'n teimlo i wylio pobl yn cerdded ar hyd y coridor i'r gadair drydanol? Pam mae hyn yn cael ei ystyried yn artaith?
4) Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl ei wylio?

Nawr, gwyliwch y clip *Interview with Anthony Graves* a rhannwch daflen yr astudiaeth achos, sy'n rhoi mwy o fanylion am ei brofiad ar res yr angau a'r hiliaeth yn ymwneud â'i achos. Os yw'n briodol, gall myfyrwyr hŷn ymchwilio ymhellach i'r achos hwn. Mae erthygl ynTexas Monthly yn rhestru'r anghyfiawnderau sy'n gysylltiedig â'r achos hwn: anthonygravesfoundation.org/news/2017/innocence-lost


I ddechrau, trafodwch:
• Pam mae Anthony Graves o'r farn bod y gosb eithaf yn anghywir?
• Beth yw'r dewis arall i'r gosb eithaf, yn ei farn ef?

Yn ail:
• Ar ba adegau ychydig chi'n credu y bu gwahaniaethu? Defnyddiwch daflen waith Y Broses Gyfreithiol i'ch helpu i amlygu ar ba gam (penderfyniad cyhuddo, treial) a chan bwy.
• Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am hiliaeth gyfundrefnol yn UDA?
• Ydych chi'n credu bod yr un hiliaeth gyfundrefnol yn bodoli mewn achosion heddlu a threialon yn y DU? Pam?
• Beth arall ddylid ei wneud i sicrhau bod pawb yn cael treial teg?

Gall y gweithgaredd hwn gael ei gwblhau mewn grwpiau o bedwar hefyd gan ddefnyddio astudiaeth achos Anthony Graves â'r cwestiynau trafod.

**Sesiwn dorfol** 10 munud

Pe byddech chi'n ddeddfwr ac yn gallu cyflwyno unrhyw newidiadau i sicrhau bod system y gosb eithaf yn decach ac yn fwy cyfartal, pa newidiadau fyddech chi'n eu cyflwyno?



**Frederick Douglass, Diwygiwr cymdeithasol yn yr UD**

**Estyniad**

Frederick Douglass (uchod) oedd un o ddiddymwyr mwyaf blaenllaw y 19eg ganrif. Ymchwiliwch i'r araith a gyflwynodd yn Efrog Newydd ar 7 Hydref 1858, lle y dywedodd fod y gosb eithaf yn 'gwawdio cyfiawnder'. Beth oedd yn ei olygu? Argraffwch ei lun ac ysgrifennwch nesaf ato sut ydych chi'n meddwl y byddai'n teimlo am y gosb eithaf heddiw.

**Ffynnonellau:**
Gwers o *The Death Penalty Resource Guide*, Amnest Rhyngwladol UDA
Adroddiad *Affront to Justice: Death Penalty in Saudi Arabia*, Amnest Rhyngwladol

I'R ATHRO

# GWERS 5 PARU ALLWEDDEIRIAU A DIFFINIADAU

Torrwch yr allweddeiriau a'r diffiniadau allan a gofynnwch i'r myfyrwyr eu paru

| | |
|---|---|
| Gwahaniaethu | Trin gwahanol grwpiau o bobl yn annheg, yn enwedig ar sail eu hil, oedran, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol |
| Rhagfarn | Barn ragdybiedig nad yw wedi'i seilio ar reswm na phrofiad gwirioneddol, ond sydd wedi'i seilio ar stereoteipiau a thueddiad ymwybodol neu anymwybodol |
| Cydraddoldeb | Cael eich trin yn deg o ran statws, hawliau a chyfleoedd |
| Anghydraddoldeb | Peidio â chael eich trin yn deg, yn enwedig o ran statws, hawliau a chyfleoedd |
| Tuedd | Rhagfarn o blaid neu yn erbyn un unigolyn neu grŵp, yn enwedig mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn annheg |
| Cyfiawnder | Y rhinwedd o fod yn deg, yn gyfartal, yn rhesymol ac yn gytbwys |
| Hiliaeth | Rhagfarn neu wahaniaethu sydd wedi'i gyfeirio at rywun o hil wahanol ar sail y syniad bod eich hil eich hun yn uwchraddol. Mae'n cynnwys mae'n cynnwys anghydbwysedd o ran dynameg pŵer, a gall fod yn systemig. |
| Braint | Hawl neu fantais arbennig heb ei hennill sy'n cael ei rhoi i unigolyn neu grŵp |
| Senoffobia | Casineb, atgasedd neu ragfarn yn erbyn pobl o wledydd eraill |

I'R ATHRO

# GWERS 5 PARU ALLWEDDEIRIAU A DIFFINIADAU

Torrwch yr allweddeiriau a'r diffiniadau allan a gofynnwch i'r myfyrwyr eu paru

| | |
|---|---|
| Islamoffobia | Casineb, atgasedd neu ragfarn yn erbyn pobl Islamaidd neu Fwslimaidd |
| Rhagfarn oed | Rhagfarn neu wahaniaethu ar sail oedran |
| Rhywiaeth | Rhagfarn neu wahaniaethu, yn erbyn menywod fel arfer, ar sail rhyw |
| Hiliaeth gyfundrefnol | Gwahaniaethu hiliol sydd wedi cael ei sefydlu'n ymddygiad arferol mewn cymdeithas, sefydliad gwleidyddol neu gyfundrefn |
| Gwahaniaethu anuniongyrchol | Arfer neu reol polisi sy'n berthnasol i bawb yn yr un ffordd, ond sy'n rhoi grŵp o bobl sy'n rhannu nodwedd, yn enwedig hil, rhywedd, oed, anabledd neu gyfeiriadedd rhywiol, dan anfantais |
| Gwahaniaethu uniongyrchol | Mae rhywun yn cael ei drin yn wahanol neu'n waeth na rhywun arall, yn enwedig ar sail hil, oed, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol |
| Gwrth-semitiaeth | Gwahaniaethu, rhagfarn neu elyniaeth yn erbyn Iddewon |
| Homoffobia | Ofn neu atgasedd tuag at rywun ar sail rhagfarn neu agweddau, credoau neu farnau negyddol am bobl lesbïaidd, hoyw neu ddeurywiol |
| Trawsffobia | Ofn neu atgasedd tuag at rywun yn seiliedig ar y ffaith ei fod/bod yn drawsrywiol, gan gynnwys gwadu neu wrthod derbyn ei hunaniaeth o ran rhywedd |

# GWERS 5 TAFLEN WAITH Y BROSES GYFREITHIOL

Lle gall gwahaniaethu ddigwydd ym mhroses y gosb eithaf

| Proses gyfreithiol | Y bobl dan sylw | Gweithredoedd a all fod yn wahaniaethol |
|---|---|---|
| Arestio | Yr Heddlu<br>Y cyfryngau | |
| Cyhuddo | Yr heddlu<br>Cyfreithwyr | |
| Ymddangosiad cyntaf yn y llys<br>(cael eu cyhuddo, pledio) | Cyfreithwyr<br>Y barnwr<br>Y cyfryngau | |
| Treial | Cyfreithwyr<br>Y barnwr<br>Y rheithgor<br>Y cyfryngau | |



**Yn ei eiriau ei hun**
'Ni fyddwn erioed wedi meddwl y byddai dyn ifanc, Affricanaidd-Americanaidd o'r prosiectau yn gallu cwyno yn erbyn Erlynydd Sirol gwyn, pwerus yn Nhecsas ac ennill.'

# ASTUDIAETH ACHOS

## Anthony Graves

**Y 138fed carcharor i'w ryddhau o res yr angau yn America.**

Ym 1992, cafodd Anthony Graves ei arestio, ei gyhuddo a'u farnu'n euog o helpu Robert Carter i lofruddio teulu o chwech yn Somerville, Tecsas. Nid oedd unrhyw gymhelliad na thystiolaeth ffisegol yn cysylltu Anthony â'r trosedd. Roedd ei euogfarn yn dibynnu'n bennaf ar dystiolaeth Robert, a dynnodd ei eiriau'n ôl yn ddiweddarach, ac a ddywedodd eto, ychydig funudau cyn iddo gael ei ddienyddio yn 2000, na wnaeth Anthony gyflawni'r trosedd.

Cafodd Anthony, nad oedd ag unrhyw hanes o drais, ei garcharu am 18 mlynedd, 16 ohonynt mewn cell ar ei ben ei hun a 12 ohonynt ar res yr angau. Wynebodd ddau ddyddiad dienyddio.

Yn 2006, gwrthdrodd Llys Apêl yr UD euogfarn Anthony a mynnu treial newydd ar ôl darganfod bod yr erlynyddion wedi ennyn datganiadau ffug ac wedi dal tystiolaeth yn ôl a allai fod wedi dylanwadu ar y rheithgor. Fodd bynnag, bu raid i Anthony aros pedair blynedd am aildreial, ac ni chafodd ei ryddhau tan 2010.

Yn 2011, dyfarnwyd $1.4 miliwn iddo am yr amser a dreuliodd ar res yr angau. Cafodd yr erlynydd, Charles Sebesta, ei ddiarddel o'r bar yn 2015 am guddio tystiolaeth ddifeiol (tystiolaeth a all fod wedi helpu Anthony) a defnyddio tystiolaeth ffug yn yr achos er mwyn sicrhau euogfarn.

Ers hynny, mae Anthony wedi dod yn eiriolwr amser llawn ar gyfer diwygio cyfiawnder troseddol, gan roi tystiolaeth gerbron Senedd yr UD yn ymwneud â niwed carcharu'n unigol, gwasanaethu ar fwrdd cyfarwyddwyr Canolfan Gwyddorau Fforensig Houston, a gweithio ag ymgyrch *Campaign for Smart Justice* Undeb Hawliau Sifil America. Mae'n siarad yn eang am y gosb eithaf ac yn rhedeg Anthony Graves Foundation, sy'n gweithio i dynnu sylw at broblemau yn system cyfiawnder troseddol yr UD, gan gynnwys rhyddhau pobl a gafwyd yn euog ar gam.

**Ffynonellau:**
Anthony Graves Foundation
Canolfan Wybodaeth am y Gosb Eithaf
Amnest Rhyngwladol
Texas Monthly (y dyfyniad 'Yn ei eiriau ei hun')

# **GWERS 6** Y DDADL AM Y GOSB EITHAF

A ddylai'r gosb eithaf gael ei chadw, ei chyfyngu neu ei diddymu yn UDA? Bydd myfyrwyr yn cyflwyno eu dadleuon o safbwynt penodol ac yn perswadio eraill i gefnogi eu safbwyntiau.

**Amseriad**

1 awr i baratoi (dewisol), 1 awr i ddadlau

**Nodau**

- Dysgu am y gosb eithaf yn UDA
- Gwrando ar leisiau grwpiau gwahanol a'u cynrychioli
- Gwerthuso safbwyntiau gwahanol ar y gosb eithaf yn feirniadol

**Bydd arnoch angen**

Ffeithlen UDA (i'r athro/athrawes)
Cardiau rolau (wedi'u torri a'u dosbarthu, un i bob grŵp)

**Testun dadl arall yn y wlad hon**
A ddylai'r gosb eithaf gael ei hadfer yn y DU?

**Sbardun** 10 munud

Cyflwynwch yr amcanion dysgu i'r dosbarth. Darllenwch y ffeithlen ar UDA a thrafodwch unrhyw safbwyntiau sy'n codi. A oes unrhyw ran o'r wybodaeth yn synnu'r myfyrwyr? Pam mae'r sefyllfa mor gymhleth?

Esboniwch unrhyw allweddeiriau nad ydynt yn eu gwybod (cyfeiriwch at yr eirfa, fel y bo'n briodol).

**Gweithgaredd 1** 10 munud

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Dywedwch wrthynt y byddant yn cymryd arnynt eu bod yn wahanol grwpiau o bobl ar bwyllgor sy'n eistedd i drafod a ddylai'r gosb eithaf gael ei diddymu yn Georgia.

Y bobl ar y pwyllgor yw'r heddlu; y Comisiwn Hawliau Sifil; y Cyngor Ffydd; plaid wleidyddol; Cymdeithas Dioddefwyr Troseddau; ac Amnest Rhyngwladol.

Rhowch gerdyn rôl i bob grŵp. Rhowch 10 munud iddynt gynllunio eu dadleuon 'yn eu rôl' ar gyfer y drafodaeth, hyd yn oed os nad ydynt yn rhannu'r safbwynt hwnnw'n bersonol. Dylai hyn gynnwys: pwy ydynt a thair dadl wedi'u hategu o blaid neu erbyn y gosb eithaf.

**Nodyn addysgu**

Mae'n bosibl i'r myfyrwyr yng ngrwpiau'r heddlu, y Cyngor Ffydd a'r Gymdeithas Dioddefwyr Troseddau ddadlau o blaid neu yn erbyn y gosb eithaf. Ymarfer defnyddiol fyddai caniatáu i'r grwpiau myfyrwyr benderfynu pa safbwynt yr hoffent ei gymryd yn fewnol. Fel arall, gofynnwch iddynt gymryd safbwynt penodol er mwyn sicrhau eich bod yn cael dadl deg. Os oes angen cymorth ychwanegol ar y myfyrwyr, gwnewch y grwpiau'n fwy.

**Gweithgaredd 2** 30 munud

Esboniwch y bydd y ddadl yn symud ymlaen i: a ddylid diddymu'r gosb eithaf yn UDA? Eto, rhaid iddynt ddadlau eu safbwynt 'yn eu rôl'. Bydd angen o leiaf tair dadl gref arnynt, a rhaid iddynt ddod i gasgliad rhesymegol. Dylai pob grŵp ethol llefarydd i esbonio ei benderfyniad i weddill y dosbarth.


Galwch y llefarwyr i roi eu hareithiau un ar y tro. Dylent bara tua munud. Gofynnwch i bobl godi eu cerdyn rôl os hoffent ofyn cwestiynau. Pan fydd y llefarwyr wedi gorffen, galwch am bleidlais drwy godi dwylo ar y penderfyniad terfynol ynghylch p'un a ddylai UDA ddiddymu'r gosb eithaf.

**Sesiwn dorfol** 20 munud

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddod allan o'u rôl a thrafod y cwestiynau allweddol canlynol mewn grwpiau bach neu fel dosbarth, neu gosodwch gwestiynau ar gyfer gwaith cartref



Rhes yr angau, Alabama, UDA
© Doug Magee




© AI

• Sut oeddech yn gweld eich rôl? Beth wnaethoch ei ddysgu? A yw wedi newid eich amgyffrediad o'r gosb eithaf? Os ydyw, pam? Os nad ydyw, pam ddim?

• Pa ddadleuon oedd y rhai mwyaf a lleiaf darbwyllol, yn eich barn chi? Ydych chi'n cytuno â phenderfyniad y dosbarth? Pam neu pam ddim?

• Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwynt UDA ar faterion fel y gosb eithaf?

• Yn aml, mae safbwyntiau crefyddol ar faterion moesol yn amrywio, nid yn unig rhwng crefyddau, ond o fewn crefyddau hefyd. Allwch chi nodi unrhyw enghreifftiau o hyn yn y ddadl?

• Ydych chi'n credu ei fod yn iawn y gall gwledydd ddewis drostyn nhw'u hunain p'un a ydynt am ddefnyddio'r gosb eithaf ai peidio? Beth allai rôl gwledydd eraill fod mewn materion fel y gosb eithaf?

• Beth fydd canlyniad y penderfyniad i gadw neu ddiddymu'r gosb eithaf? Pwy fydd yn effeithio arno yn UDA? Meddyliwch am deuluoedd y naill barti a'r llall, cymdeithas, unigolion eraill ac ati.

Gallai'r pwyntiau canlynol eich helpu i archwilio'r cwestiynau hyn â'r myfyrwyr:

• Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwynt gwlad ar y gosb eithaf yn cynnwys: ystyriaethau crefyddol, fel dysgeidiaeth grefyddol swyddogol y wlad; ystyriaethau gwleidyddol, fel poblogrwydd ymhlith pleidleiswyr, pryder cyhoeddus yn ymwneud â chyfraddau troseddu, dylanwad gwledydd eraill a'r berthynas â nhw; ystyriaethau economaidd, fel cost cadw pobl yn y carchar yn erbyn cost eu dienyddio.

• Yn aml, mae traddodiadau crefyddol yn cynnwys dysgeidiaeth ar gyfiawnder drwy ad-daledigaeth ac ar drugaredd neu faddeuant; er enghraifft, mewn Cristnogaeth, mae 'llygad am lygad' (Hen Destament) yn cyferbynnu â 'throi'r foch arall' (Testament Newydd). Ar y cyfan, mae Islam yn derbyn y gosb eithaf, ond mae maddeuant a heddwch yn brif thema yn y Qur'an. Mae Bwdhyddion yn rhoi pwyslais mawr ar ddulliau di-drais a thrugaredd tuag at bob bywyd, ond mae sawl gwlad sydd â phoblogaethau mawr o Fwdhyddion sydd wedi cadw'r gosb eithaf.

## Gweithgaredd

Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i ddysgeidiaeth grefyddol ar y gosb eithaf.

• Gall gwledydd ddewis beth maent yn ei wneud o fewn eu ffiniau eu hunain, cyn belled â nad ydynt yn cam-drin hawliau dynol. Sylwch fod y gosb eithaf wedi'i chaniatáu o dan gyfraith ryngwladol o hyd.

• Mae deddfau hawliau dynol yn esblygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'n cymdeithas gyfnewidiol. Mae sefydliadau, fel y Cenhedloedd Unedig, yn ceisio creu consensws byd-eang ar faterion fel diddymu'r gosb eithaf. Er enghraifft, yn 2002, ychwanegwyd protocol newydd at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a grëwyd gan Gyngor Ewrop ym 1950. Roedd Protocol Rhif 13 yn diddymu'r gosb eithaf o dan unrhyw amgylchiadau.

## Estyniad

• Sut mae eich barn gychwynnol am y gosb eithaf wedi newid yn ystod y wers hon (neu'r gweithgareddau)?

• I'r rhai sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn actifiaeth ar y gosb eithaf, sut fyddech chi'n ymgyrchu? Gweler **amnesty.org.uk/issues/death-penalty** â'i gysylltu â Gwers 7.

# **GWERS 6** CARDIAU RÔL

Torrwch a dosbarthwch y rhain i'r grwpiau ar gyfer y ddadl.

## YR HEDDLU

Rydych chi'n cynrychioli'r heddlu yn Georgia. Datgelodd arolwg o'r heddlu y barnau cyferbyniol canlynol.

Mae rhai o'r heddlu yn erbyn y gosb eithaf gan nad yw'n rhoi cyfle i droseddwyr wella neu newid. Hefyd, maent yn credu bod lladd llofruddwyr yn golygu eu bod cynddrwg â'r unigolyn a gyflawnodd y llofruddiaeth. O ystyried cost y gosb eithaf ac apelio yn ei herbyn, mae rhai ohonynt yn teimlo y gellid gwario'r adnoddau hyn yn well ar bethau eraill.

Fodd bynnag, mae eraill o blaid y gosb eithaf ar gyfer troseddau penodol, gan eu bod o'r farn ei bod yn arf ataliol. Dywedant y byddai ei diddymu'n arwain at gynnydd mewn troseddau treisgar. Ar ben hynny, mae teulu dioddefwr yn haeddu cael gwybod bod rhywun wedi talu'r pris uchaf er mwyn rhoi cyfiawnder a diweddglo.

Penderfynwch ba safbwynt byddwch chi'n ei gymryd.

## Y COMISIWN HAWLIAU SIFIL

Rydych chi'n cynrychioli sefydliad hawliau dynol a hawliau sifil.

Mae o'r farn bod y gosb eithaf yn torri'r gwaharddiad cyfansoddiadol ar gosbau creulon ac anarferol, ac na ddylai'r dalaith roi'r hawl i ladd bodau dynol, yn enwedig pan fydd yn lladd yn rhagfwriadol ac yn ddefodol.

Mae hefyd yn dadlau bod y gosb eithaf yn cael ei defnyddio yn erbyn pobl mewn ffordd annheg ac anghyfiawn, gan ddibynnu'n fawr ar faint o arian sydd ganddynt, sgiliau'r cyfreithiwr, a hil y dioddefwr. Mae'r comisiwn hefyd o'r farn bod yr amser maith y mae pobl yn ei dreulio ar res yr angau yn debyg i artaith, a chan fod artaith yn torri hawliau dynol, dylai'r gosb eithaf fod yn anghyfreithlon.

Byddwch chi'n dadlau yn erbyn y gosb eithaf.

## Y CYNGOR FFYDD

Mae'r Cyngor Ffyrdd yn siarad ar ran sawl ffydd grefyddol fawr yn y wlad, gan gynnwys Islam, Iddewiaeth a'r holl brif eglwysi Cristnogol.

Mae'r cyngor yn cynnwys elfen geidwadol a rhyddfrydig.

Mae rhai o aelodau rhyddfrydig y cyngor o'r farn bod y gosb eithaf yn anghywir, oherwydd i amrywiaeth o arweinwyr crefyddol godi eu lleisiau yn erbyn llofruddiaeth, gan gynnwys Iesu. Gallant ddadlau bod Iesu Grist wedi dioddef anghyfiawnder y gosb eithaf drwy gael ei groeshoelio, a phregethu maddeuant yn hytrach nad ad-daledigaeth. Maent yn dadlau mai Duw yn unig ddylai roi neu gymryd bywyd, a bod yr Ysgrythur Lân yn condemnio llofruddiaeth fel pechod.

Fodd bynnag, mae rhai o aelodau ceidwadol y cyngor o'r farn bod y gosb eithaf yn dderbyniol, gan fod y llyfrau sanctaidd hefyd yn amlygu adegau pan gafodd pobl gosb marwolaeth am ladd pobl eraill. Maent hefyd yn dadlau y dylai'r dalaith gryfhau moesoldeb traddodiadol ar sail dysgeidiaeth grefyddol.

Penderfynwch ba safbwynt byddwch chi'n ei gymryd.

## AMNEST RHYNGWLADOL

Rydych chi'n cynrychioli sefydliad hawliau dynol rhyngwladol. Mae Amnest Rhyngwladol yn haeru bod y gosb eithaf yn torri hawliau dynol ar bob lefel, yn enwedig yr hawl i fywyd (Erthygl 3, UDHR) a'r hawl i beidio â chael eich arteithio na bod yn destun cosbau creulon, annynol na diraddiol (Erthygl 5, UDHR).

Dechreuodd ei ymgyrch i ddiddymu'r gosb eithaf ledled y byd ym 1977 – bryd hynny, dim ond 16 o wledydd a oedd wedi diddymu'r gosb eithaf. Mae Amnest yn gwrthwynebu defnyddio'r gosb eithaf ym mhob achos ar gyfer pob trosedd, p'un a yw rhywun yn euog neu'n ddieuog.

Y gred yw nad oes gan unrhyw un – gan gynnwys llywodraeth – hawl i ladd rhywun arall. Nid yw'r gosb eithaf yn atal troseddu, mae'n ddi-droi'n-ôl ac mae camgymeriadau'n digwydd. Gallech chi ddadlau hefyd ei bod yn aml yn cael ei defnyddio mewn systemau cyfiawnder annheg a'i bod yn gallu cael ei defnyddio'n arf gwleidyddol.

Rhaid i chi ddadlau yn erbyn y gosb eithaf ac o blaid newid dedfrydau'r rhai sydd ar res yr angau yn y carchar ar hyn o bryd i ddedfryd oes.

## PLAID WLEIDYDDOL

Rydych chi'n cynrychioli plaid wleidyddol yn UDA.

Rydych chi'n cefnogi'r gosb eithaf mewn amgylchiadau penodol, fel llofruddiaeth, terfysgaeth a niwed i blant.

Rydych chi'n credu bod y gosb eithaf yn atal troseddu, ond bod y troseddau hyn yn haeddu cosb debyg hefyd.

Rydych chi o'r farn y dylai pob llys fod â'r opsiwn i roi'r gosb eithaf yn yr achosion hyn. Rydych chi'n condemnio'r ffordd mae'r Llys Goruchaf wedi erydu hawl pobl i ddeddfu'r gosb eithaf yn eu taleithiau. Mae angen mynd i'r afael â throseddau treisgar cyn y bydd yn rhy hwyr ac, i'r perwyl hwnnw, na ddylai barnwyr adael i droseddwyr fynd yn rhydd na'u gwarchod rhag y gosb eithaf.

Rydych chi'n dadlau bod angen rhoi hawliau dioddefwyr a'u teuluoedd yn gyntaf unwaith eto.

Rhaid i chi ddadlau o blaid y gosb eithaf mewn achosion penodol.

## CYMDEITHAS DIODDEFWYR TROSEDDAU

Rydych chi'n aelodau o'r Gymdeithas Dioddefwyr Troseddau, sef grŵp grymus sy'n cefnogi dioddefwyr troseddau treisgar a'u teuluoedd.

Rydych chi o'r farn bod pob dioddefwr a'u teuluoedd yn haeddu'r parch, cefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ailadeiladu eu bywydau.

Mae rhai aelodau'n dadlau bod y gosb eithaf yn dod â chyfiawnder a diweddglo i deuluoedd dioddefwyr. Mae gan y rhai sy'n wedi colli anwylion mewn troseddau erchyll hawl i weld yr unigolion cyfrifol yn cael eu dwyn i gyfrif mewn treial deg sydd â'r opsiwn o roi'r gosb eithaf.

Fodd bynnag, mae aelodau eraill yn dadlau y gall y gosb eithaf achosi mwy o niwed i'r teuluoedd hyn, ac maent yn ei herbyn. Nid yw'n gallu lleddfu eu poen, mewn gwirionedd. Y cwbl mae'n ei wneud yw ymestyn y dioddefaint hwnnw i deulu'r unigolyn sydd wedi'i gondemnio.

Penderfynwch ba safbwynt byddwch chi'n ei gymryd.

I'R ATHRO

# GWERS 6 FFEITHLEN AR UDA




**Rali Amnest, UDA, 1988**
**© Keith Rutter**

Mae hanes y gosb eithaf yn UDA yn gallu cael ei olrhain i'r cyfnod gwladychol yn y 1600au. Cofnodwyd y dienyddiad cyntaf ym 1608 yn Virginia, pan gafodd Capten George Kendall ei ddienyddio am ysbïo i Sbaen.

**Sut cafodd y gosb eithaf ei defnyddio yn 2018**
Am y 10fed flwyddyn yn olynol, UDA oedd yr unig wlad yn America i gynnal dienyddiadau.

Cynyddodd nifer y dienyddiadau a'r dedfrydau marwolaeth ychydig bach am yr ail flwyddyn yn olynol – mae'n seithfed ar restr y dienyddwyr byd-eang – ond roedd o fewn tueddiadau isel hanesyddol yr ychydig flynyddoedd diwethaf o hyd. Nifer y dienyddiadau yn 2018 oedd 25, o gymharu â 23 yn 2017 a 20 yn 2016, ond roedd yn 52 yn 2009.

Mae cyfanswm o 20 o daleithiau wedi diddymu'r gosb eithaf, gan gynnwys saith er 2007. Ar hyn o bryd, mae'r gosb eithaf yn dal i fodoli mewn 30 o daleithiau.

O'r rhain, nid yw 11 o daleithiau – Califfornia, Colorado, Kansas, Kentucky, Montana, Nevada, New Hampshire, North Carolina, Oregon, Pennsylvania a Wyoming – wedi cyflawni unrhyw ddienyddiadau am o leiaf 10 mlynedd.

Mae llywodraethwyr Colorado, Oregon a Pennsylvania wedi sefydlu moratoria ar ddienyddiadau. Nid yw'r awdurdodau ffederal wedi cyflawni unrhyw ddienyddiadau er 2003, a'r awdurdodau milwrol er 1961.

| Dienyddiadau a gofnodwyd yn 2018 | Dedfrydau marwolaeth a gofnodwyd yn 2018 | Pobl a oedd â dedfryd marwolaeth ar ddiwedd 2018 |
|---|---|---|
| 25 mewn wyth talaith:<br>Alabama (2)<br>Fflorida (2)<br>Georgia (2)<br>Nebraska (1)<br>Ohio (1)<br>De Dakota (1)<br>Tennessee (3)<br>Tecsas (13) | 45 mewn 16 awdurdodaeth:<br>Alabama (3)<br>Arizona (2)<br>Arkansas (2)<br>Califfornia (5)<br>Fflorida (7)<br>Louisiana (1)<br>Mississippi (2)<br>Missouri (1)<br>Nebraska (2)<br>Nevada (1)<br>Ohio (6)<br>Oklahoma (1)<br>Pennsylvania (2)<br>Tennessee (1)<br>Tecsas (7)<br>Awdurdodau ffederal (2) | 2,654 o bobl mewn 33 awdurdodaeth gan gynnwys:<br>739 yng Nghalifformia<br>343 yn Fflorida<br>223 yn Nhecsas<br>176 yn Alabama<br>144 yn Pennsylvania |

**Ffynhonnell:** Adroddiad Byd-eang Amnest Rhyngwladol ar Ddedfrydau Marwolaeth a Dienyddiadau 2018

# **GWERS 7** GWEITHREDU

Mae astudiaethau achos a ffilmiau'n dangos bod gan bob un ohonom rym i ddadlau dros ein safbwyntiau. Bydd myfyrwyr yn dysgu am wahanol grwpiau sy'n gweithredu yn erbyn y gosb eithaf, cyn cael eu herio i newid neu wella eu cymuned leol.

**Amseriad** 60 munud (neu i'w gynnal dros ddwy wers neu brosiect tymor hwy)

**Nodau**

- Amlygu grwpiau sy'n ymgyrchu yn erbyn y gosb eithaf
- Deall sut gall bob un ohonom gefnogi hawliau dynol
- Datblygu prosiect ysgol neu gymuned
- Teimlo'n rymus â'r hyder y gallant wneud gwahaniaeth

**Bydd arnoch angen**

Taflen gynllunio beth, pam, pwy, sut Grid pwyso a mesur
**Clipiau fideo:** Letters To Death Row (vimeo.com/67891555) 13.46 munud Over To You (vimeo.com/6716313) 16.54 munud
You Are Not Powerless (vimeo.com/292934966) 1 munud

Pwysleisiwch fod y ffilmiau'n emosiynol. Mae *You Are Not Powerless* yn cynnwys rhegiad wedi'i sensro.

**Sbardun** 5 munud

Siaradwch â'r dosbarth am sefydliadau, gan gynnwys Amnest Rhyngwladol, Human Rights Watch a Reprieve, sy'n ymgyrchu yn erbyn y gosb eithaf, a pham hynny.

**Gweithgaredd 1** 15 munud

Beth mae'r dosbarth yn ei wybod am Amnest Rhyngwladol? Ymchwiliwch i bwy sy'n perthyn i'r sefydliad hwn. Beth yw ei ddatganiad o genhadaeth mewn perthynas â'r gosb eithaf? Pam? Sut mae Amnest yn ymgyrchu ar y mater hwn? Gweithredoedd presennol?
**Gweler amnesty.org.uk/issues/death-penalty**
**amnesty.org/en/what-we-do/death-penalty**

Un o'r ffyrdd mae Amnest yn ymgyrchu yw drwy anfon llythyrau at bobl ar res yr angau. Dangoswch y fideo Letters To Death Row.

Esboniwch wrth y myfyrwyr y gall llythyrau a gweithredu ar ran carcharorion sicrhau eu bod yn cael eu trin yn well; y cânt eu rhyddhau yn y pen draw; bod ganddynt obaith; nad ydynt yn teimlo'n unig.




'Hoffwn ddiolch i Amnest Rhyngwladol a'i actifyddion am y gefnogaeth wych a olygodd fy mod i'n fuddugol yn y sefyllfa hon. Mae Amnest a'i actifyddion yn arwyr i mi. Rwy'n addo bod yn actifydd hawliau dynol, i frwydro dros bobl eraill.'
**Moses Akatugba wrth gael ei ryddhau o res yr angau, Nigeria, 2015**

Mae Amnest yn gweithio ar achosion allweddol sy'n dangos annhegwch y gosb eithaf, fel achos Moses Akatugba yn Nigeria, a oedd yn 16 oed adeg y trosedd (dwyn ffonau symudol). Cafodd ei arteithio sawl gwaith nes iddo lofnodi cyfaddefiad. Cafodd ei ddedfrydu i farwolaeth drwy grogi, ond cafodd faddeuant llawn ar ôl bron i 10 mlynedd yn y carchar ar ôl ymgyrch ddwys gan gefnogwyr Amnest ledled y byd.
Mwy o wybodaeth: **amnesty.org.uk/nigeria-moses-akatugba**
Gweler Gwers 3 hefyd am astudiaeth achos fanwl ar Moses.

## **Gweithgaredd 2** 30 munud

Dangoswch *Over To You* (sut mae tri grŵp ieuenctid Amnest yn cefnogi hawliau dynol ar draws y DU) neu *You Are Not Powerless* (sy'n annog pobl ifanc i weithredu). Trafodwch effaith gweithredu ac esboniwch fel mae gan bawb lais. Holwch y myfyrwyr a ydynt yn credu y gallant wneud gwahaniaeth pe byddent eisiau gwneud hynny? Pam? Pam ddim?


Gweithredu ar y gosb eithaf, Mongolia
© AI Mongolia

Dywedwch wrth y myfyrwyr y gallant gymryd rhan mewn prosiect Gweithredu neu ymgyrch wedi'i harwain gan fyfyrwyr. Gofynnwch iddynt amlygu materion neu broblemau maent yn eu gweld yn eu hysgol neu eu hardal leol yr hoffent eu newid a'u gwella, neu amlygu maes y gallant gynnig cymorth ynddo. Dechreuwch gan ddefnyddio'r daflen waith Beth, pam, pwy, sut? i'w helpu i gynllunio. Yna, symudwch ymlaen i'r grid Pwyso a mesur.

Lluniwch fap meddwl o'r prosiectau yr hoffent weithredu arnynt e.e. gwahodd siaradwr lleol neu AS i'r ysgol; gwirfoddoli â grŵp cymunedol lleol; codi arian ar gyfer achos lleol, fel pobl ddigartref; mynd i'r afael â bwlio; casglu ar gyfer banc bwyd; trefnu i godi sbwriel mewn parc neu faes chwarae; dechrau clwb neu dîm neu fentora myfyrwyr iau; trefnu deiseb neu gyngerdd i hyrwyddo hawliau dynol; hyrwyddo Mis Hanes Pobl Dduon, ffeministiaeth fyd-eang neu ymgyrch arall wedi'i harwain gan fyfyrwyr.

Dewiswch ddau brosiect o'r rhestr i'w trafod. Beth yw manteision pob prosiect? Dewiswch yr un y mae'r dosbarth yn cytuno fydd yn fwyaf effeithiol.

Trafodwch yr holl gamau y bydd eu hangen arnynt i ddod â'r prosiect at ei gilydd a'i roi ar waith.

## **Sesiwn dorfol** 10 munud

Siaradwch neu ysgrifennwch am ddiffynnydd hawliau dynol neu rywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth yn yr ysgol neu'n lleol. Efallai eu bod wedi herio bwlis, wedi helpu pobl ddigartref, wedi helpu ceiswyr lloches neu wedi ymgyrchu dros addysg well neu weithredu ar newid yn yr hinsawdd.

**Rhannwch yr enghreifftiau hyn:** Pan roedd yn 14 oed, dechreuodd Fahma Mohamed ymgyrchu yn erbyn anffurfio organau cenhedlu benywod a thrais wedi'i seilio ar rywedd. Gwisgodd Chris Whitehead, 12, sgert i'r ysgol i brotestio yn erbyn rheolau nad oeddent yn caniatáu i fechgyn wisgo trowsus byr mewn tywydd poeth. Dechreuodd Luke Wilcox, 18, ddeiseb i helpu ei ffrind, Brian White, i aros yn y DU pan roedd yn wynebu cael ei alltudio i Zimbabwe. Ysbrydolodd Greta Thunberg, 15, y streiciau ysgol Fridays for Future i amlygu argyfwng yr hinsawdd.

## **Estyniad**

**Pwyntiau meddwl**
Pam mae'n bwysig ymgyrchu dros bethau sydd o bwys i chi?
Pa bethau fyddai'n helpu'r bobl hyn i herio anghyfiawnder?
Beth sydd angen ei newid i bawb gyflawni eu nod?
Pa gefnogaeth sydd ei hangen arnynt a pham mae cefnogaeth yn bwysig?

Os yw'r myfyrwyr wedi'u hysbrydoli i ysgrifennu llythyrau ar gyfer achos ar res yr angau, gweler y ddolen i achos Matsumoto Kenji **www.amnesty.org.uk/jua/matsumoto-kenji**. Neu gallant sefydlu neu ymuno â grŵp ieuenctid Amnest yn eu hysgol neu goleg, gweler **www.amnesty.org.uk/youth**

**Gweithredu ar y gosb eithaf**

- Cynhaliwch sgriniad yn yr ysgol o ffilm â thema'r gosb eithaf, er enghraifft *Let Him Have It* (15), *Dead Man Walking* (15), *To Kill A Mockingbird* (PG), *12 Angry Men* (U), *The Life of David Gale* (15). Wedyn, cynhaliwch drafodaeth. Sut cafodd y gosb eithaf ei chyflwyno? Beth yw'r neges mae'r cyfarwyddwr eisiau ei chyfleu? Ac ati.
Gwahoddwch siaradwr o Amnest i gynnal gwasanaethau neu wers gan ddefnyddio'r adnoddau hyn – **amnesty.org.uk/speakers**
- Trefnwch stondin i ddosbarthu gwybodaeth am y gosb eithaf – gosodwch liniadur i ddangos *Behnoud's Story* (vimeo.com/49304204) neu *Letters to Death Row* (vimeo.com/67891555) i sbarduno sgwrs.

# **GWERS 7** TAFLEN GYNLLUNIO BETH, PAM, PWY, SUT?

**BETH** yw eich mater? Beth sydd o'i le a beth sydd angen ei newid?
Pa hawliau dynol sydd dan sylw? A oes unrhyw hawliau'n cael eu gwrthod?

**PAM** mae'r mater hwn yn digwydd?

**PWY** sy'n gallu helpu i roi trefn ar y mater?

**SUT** gallech chi eu darbwyllo neu gydweithio â nhw i sbarduno newid. Pa gamau gallech chi eu cymryd?

# **GWERS 7** GRID PWYSO A MESUR

| | | Pa mor hawdd ydyw i gyflawni'r weithred hon?<br>Ystyriwch yr amser, adnoddau, sgiliau a'r cyfleoedd sydd gennych | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Anodd | Cyfartalog | Hawdd |
| Faint o effaith fydd y weithred hon yn ei chael?<br><br>Ystyriwch y mathau a nifer y bobl y gallwch ddylanwadu arnynt | Effaith fawr | | | |
| | Effaith gyfartalog | | | |
| | Effaith fach | | | |

# **GWASANAETH** BYWYD AM FYWYD

## Am y gwasanaeth hwn



**Nod y gwasanaeth hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r materion yn ymwneud â throseddwyr ifanc ar res yr angau. Mae'n amlygu'r problemau a'r emosiynau mae merch ifanc o'r enw Mariam yn eu hwynebu wrth iddi aros i gael ei dienyddio.**

Mae'r gwasanaeth ar ffurf drama. Mae'r ddrama a'r cymeriadau'n ddychmygol, ond maent wedi'u seilio ar dystiolaeth a phrofiadau pobl go iawn, a'r sefyllfa gyfredol mewn gwledydd fel Iran a Sawdi Arabia.

Ysgrifennwyd y gwasanaeth i fyfyrwyr 14+ oed i'w berfformio fel rhan o weithgaredd addysg cyfoedion i godi ymwybyddiaeth. Gellid ei ddefnyddio i ysbrydoli meddwl cyn cynnal diwrnod ar hawliau dynol neu ei berfformio i fyfyrwyr iau, fel y bo'n briodol. Mae sioe sleidiau PowerPoint i gyd-fynd ag ef.

Gellir defnyddio'r gweithgareddau yn y pecyn adnoddau hwn fel gweithgarwch dilynol i'r gwasanaeth, yn enwedig Gwers 4 Plant a'r gosb eithaf.

Efallai yr hoffech wylio'r ffilmiau canlynol am ddienyddio pobl ifanc hefyd:
*Yemen juvenile offenders face execution* (YouTube, chwiliwch am y teitl) 3.04 munud
*Beynoud's story* (vimeo.com/49304204) 5.40 munud
Gweler **Gwers 4** am fwy o wybodaeth.

## Amseriad

Gwasanaeth 10 munud. Paratoi 30-90 munud.

## Bydd arnoch angen

Sioe sleidiau PowerPoint
Sgript y gwasanaeth Saith o 'actorion'

## Nodyn i athrawon

**Troseddwyr ifanc**
Mae cyfraith ryngwladol yn gwahardd dienyddio troseddwyr ifanc - sef pobl a oedd dan 18 oed adeg y trosedd. Fodd bynnag, cafodd o leiaf wyth o droseddwyr ifanc eu dienyddio yn 2018 (saith yn Iran, un yn Ne'r Swdan) a chafodd chwech o droseddwyr ifanc eu dienyddio yn 2017 (pedwar yn Iran a dau yn Ne'r Swdan). Hefyd, er 1990, mae Amnest Rhyngwladol wedi dogfennu 145 o ddienyddiadau o droseddwyr ifanc mewn 10 o wledydd: Tsieina, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, Iran, Nigeria, Pacistan, Sawdi Arabia, Y Swdan, UDA ac Yemen. Erbyn hyn, mae sawl un o'r gwledydd hyn wedi newid eu cyfreithiau i wahardd yr arfer. Hefyd, mae troseddwyr ifanc ar res yr angau o hyd ym Mangladesh, Iran, Ynysoedd y Maldives, Pacistan a Sawdi Arabia.

**Y gosb eithaf mewn Islam**
Er bod dienyddio pobl ifanc yn digwydd mewn gwledydd â chrefyddau gwahanol, rydym wedi cynnwys yr esboniad hwn gan fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wlad Fwslimaidd.

Mae maddeuant a heddwch yn brif themâu yn y Qur'an, sef y testun crefyddol sydd wrth wraidd Islam. Yn y pen draw, credir bod cosb dragwyddol yn nwylo Duw, ond bod lle i gosbi yn y bywyd hwn hefyd.

Yn ôl dehongliadau cyffredin o gyfraith Islamaidd, mae gan y ddau fath o drosedd canlynol gosb marwolaeth:

• **Llofruddiaeth fwriadol** Yn yr achosion hyn, mae gan deulu'r dioddefwr y grym i fynnu ar y gosb eithaf neu faddau i'r troseddwr a derbyn 'gwaedbris' (iawndal) am eu colled.

• **Fasad fil-ardh** (‘creu helynt yn y wlad’) Gall hyn olygu llawer o wahanol bethau, ond mae’n cynnwys y troseddau canlynol, fel arfer: bradwriaeth/gwrthgiliad (pan fydd rhywun yn gadael y ffydd ac yn troi yn ei erbyn); terfysgaeth; môr-ladrad o unrhyw fath; trais rhywiol; godineb; ymddygiad cyfunrywiol.

Caiff pob achos ei ystyried yn unigol ac mae gan y llys yr hyblygrwydd i orchymyn cosbau mwy trugarog. Mae gwledydd Islamaidd sy’n arfer cyfraith Shari’a lem yn gysylltiedig â defnyddio’r gosb eithaf yn ad-daledigaeth am yr amrywiaeth fwyaf o droseddau.

Mae cyfraith Shari’a (‘ffordd’ neu ‘llwybr’) yn deillio o’r Qur’an, dysgeidiaeth ac esiampl y Proffwyd Muhammad, a dyfarniadau ysgolorion Islamaidd.

Nid yw nifer o wledydd Mwslimaidd yn defnyddio’r gosb eithaf. Er enghraifft, mae Twrci wedi’i diddymu, ac mae Moroco ac Algeria yn cael eu hystyried yn ddiddymwyr yn ymarferol.


Mae sector cynyddol o ddiddymwyr sy’n dadlau rhai o’r canlynol:
• Bod maddeuant a heddwch yn themâu craidd yn y Qur’an.
• Bod achosion o daleithiau’n dienyddio’r cyhuddedig wrth eu rhwystro rhag manteisio ar gyfreithiwr yn groes i’r cysyniad Islamaidd o gyfiawnder.
• Bod arbenigwyr mewn cyfraith Islamaidd yn anghytuno o ran eu dehongliadau o’r testunau sanctaidd a’r cyd-destun ar gyfer eu cymhwyso.

## Geirfa

**Gwaedbris:** Iawndal sy’n cael ei dalu gan droseddwr (llofrudd fel arfer) i deulu neu berthnasau’r dioddefwr. Mae’r swm yn amrywio o un wlad i’r llall.

**Qisas:** Ad-daledigaeth; hawl etifedd rhywun sydd wedi’i lofruddio i fynnu bod y llofrudd yn cael ei ddienyddio.

**Diyya:** Iawndal sy’n cael ei dalu i etifedd dioddefwr. Yn Arabeg, mae’n golygu ‘gwaedbris’ a ‘phridwerth’.




**Hafez Ibrahim gyda phapur newydd yn dathlu ei faddeuant a’i ryddhad o res yr angen yn gyfnewid am diyya, Yemen, March 2010 © AI**

## Nodiadau'r achos

Rydym yn sôn am achos go iawn Moses Akatugba yn sgript y gwasanaeth. Gweler Astudiaeth Achos 5 yng Ngwers 3 y pecyn hwn.

## Beth i'w wneud

Cyflwynwch y gwasanaeth i'r dosbarth a gofynnwch am wirfoddolwyr i helpu i ddarllen y sgript. Gofynnwch i'r myfyrwyr benderfynu ar y rolau, neu gallwch eu dyrannu eich hun. Dosbarthwch gopïau o'r sgript. Ymarferwch gyda'ch gilydd gan ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint. Gofynnwch i'r myfyrwyr beidio â cheisio defnyddio acen wahanol wrth chwarae eu rolau – gall hyn dynnu sylw oddi wrth gynnwys y testun, a gall beri tramgwydd.

## Rolau sydd eu hangen

**Perfformwyr (rhannau llafar):** chwe actor ar gyfer rolau penodol, ynghyd ag un unigolyn i adrodd yr hanes, neu gellir rhannu'r adrodd rhwng sawl myfyriwr. Bydd nodiadau cefndir y cymeriadau yn y sgript yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu rolau.

**Perfformwyr (rhannau nad ydynt yn rhai llafar):** gall unrhyw nifer o fyfyrwyr gymryd rhan mewn creu delweddau llonydd neu feimiau byr i ddangos y golygfeydd sy'n cael eu disgrifio.

**Technegwyr:** un technegydd i weithio'r cyflwyniad PowerPoint, un technegydd ar gyfer goleuadau ac un ar gyfer sain, yn ôl yr angen.

**Cyfarwyddwr:** gallai dau fyfyriwr gymryd rôl y cyfarwyddwr.

**Tywyswyr:** rhwng tri a chwech o fyfyrwyr i dywys pobl i'w seddau.

## Llwyfannu

Gallai'r ddrama gael ei pherfformio fel a ganlyn:
- **chwarae rôl**, lle mae'r actorion yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn cerdded o gwmpas y llwyfan. Meddyliwch am gael drama gysgod dawel y tu ôl i sgrin wrth ddisgrifio'r lladd.
- **darlleniad,** lle mae'r action yn aros yn eu hunfan yn wynebu'r gynulleidfa wrth ddarllen o'u sgriptiau.

Rhowch gelfi i'ch myfyrwyr er mwyn i'r gynulleidfa allu adnabod pa gymeriadau maent yn eu chwarae. Bydd effeithiau sain yn ychwanegu at y ddrama, er enghraifft cerddoriaeth Iranaidd, y gwydr yn malurio, y gwynt yn chwythu, seiren car yr heddlu.

## Gweithgareddau ymestynnol

Perfformiwch y gwasanaeth eilwaith a gofynnwch i'r gynulleidfa stopio'r ddrama ar adegau gwahanol i newid lle ag un o'r cymeriadau. Beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol i newid canlyniad y ddrama? Sut gallai fod â diweddglo mwy positif?

Gofynnwch gwestiynau dilynol i'w trafod, er enghraifft beth yw eu barn am y canlynol:
- Y ffordd cafodd Mariam a Yousra eu trin ar ddechrau'r gwasanaeth?
- Carcharorion yn cael eu gorfodi i lofnodi cyfaddefiadau?
- Troseddwyr ifanc yn cael eu dienyddio?
- Beth ddylai rôl sefydliadau ymgyrchu fel Amnest Rhyngwladol fod?

# **SGRIPT GWASANAETH** BYWYD AM FYWYD

## Cefndir y cymeriadau

Dylai'r nodiadau hyn helpu'r perfformwyr â rhannau llafar i baratoi ar gyfer eu rolau. Efallai yr hoffai athrawon edrych yn agosach ar y wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn y gwersi a'r ffilm yn y pecyn. Mae'n bwysig creu cymeriadau go iawn a pheidio â defnyddio acenion er mwyn peidio â thynnu sylw oddi wrth y cynnwys na pheri tramgwydd.

**Adroddw(y)r** — Gall un unigolyn neu ychydig o bobl yn cymryd llinellau gwahanol neu'n siarad gyda'i gilydd chwarae'r rhan hon, sef aelod ifanc gwybodus a brwdfrydig o Amnest Rhyngwladol. Mae angen i'r adroddwyr fod yn eglur a gallu taflu eu lleisiau er mwyn sicrhau y gall y gynulleidfa ddeall cyd-destun y ddrama. Dylent allu darllen o'r sgript. Efallai y byddai'n helpu â'i hyder pe byddant yn sefyll y tu ôl i ddarllenfwrdd wrth iddynt ddarllen.

**Nazim** – gwyliwr y carchar — Cymeriad cyndyn, braidd yn flin a dialgar sy'n credu ei fod yn 'gwneud ei waith'.

**Mariam** – y carcharor — Merch ddymunol 17 oed nad yw'n gallu deall beth mae wedi'i wneud o'i le ac sy'n teimlo'n unig ac yn ofnus.

**Rami** – y ditectif — Dyn grymus, ymosodol sy'n sicr o'i safbwynt a'i farnau ei hun.

Mam **Mariam** — Menyw dawel. Nid yw'n gwybod beth allai ei wneud i helpu ei merch. Mae'n teimlo'n ddi-rym a'i bod ar drugaredd yr awdurdodau.

**Samir** – mab y dioddefwr — Mab y dyn marw. Mae'n flin, yn ddig ac mae arno eisiau dial am lofruddiaeth ei dad.

**Nabil** – y cyfreithiwrr — Dyn difrifol, teg sydd â mwy o gleientiaid nag y gall ymdopi â nhw. Mae ganddi ymdeimlad cryf o gyfiawnder ac mae eisiau gwneud yr hyn sy'n iawn.

# BYWYD AM FYWYD

Drama fer gan
Amnest Rhyngwladol

**Dangoswch sleid 1**

## Adroddwr

Mae'r ddrama rydych chi am ei gweld yn dod atom gan Amnest Rhyngwladol. Dyma hanes merch 17 oed o'r enw Mariam. Er ei bod yn stori ddychmygol, mae wedi'i seilio ar ddigwyddiadau go iawn.

Mae Amnest yn sefydliad hawliau dynol byd-eang sy'n ymgyrchu i atal cam drin hawliau dynol ledled y byd. Un o brif ymgyrchoedd Amnest yw diddymu'r gosb eithaf ledled y byd.



**Dangoswch sleid 2**

## Nazim

Rydw i'n warchodwr carchar yma ar res yr angau. Rydw i'n edrych ar ôl rhai o'r bobl fwyaf creulon yn y byd – llofruddwyr a phobl sydd wedi'u llygru'n foesol. Rydyn ni'n eu cadw dan glo. Yna, rydyn ni'n eu crogi. Yn fy ngwlad i'r llynedd, cawson ni wared ar o leiaf 350 o garcharorion – dim digon yn fy marn i.



**Dangoswch sleid 3**

## Nazim

Hei!  Carcharor 2794. Agora'r drws. Dyma dy fwyd – bara a chawl dyfrllyd. Hyfryd. I lawr ag e. Efallai mai hwn fydd dy bryd bwyd olaf.



**Dangoswch sleid 4**

## Mariam

Mariam ydw i. Rydw i'n eistedd yn y gell 'ma. Rydw i'n syllu ar y waliau cerrig. Rydw i'n ceisio peidio ag edrych drwy farrau'r carchar ar raff y crogwr yn siglo, yn aros amdanaf. Mae fy mhen yn llawn ofn ac ansicrwydd.



**Dangoswch sleid 5**

## Nazim

Carcharor 2794. Dyna hi yn ei chell – yn crïo drwy'r amser. Byth yn siarad. Mae'n ifanc. Mae'n edrych yn ddigon diniwed. Ond coeliwch chi fi, mae hi'n gythreulig. Mi wnaeth hi drywanu dyn i farwolaeth – dinesydd lleol blaenllaw â gwraig a thri o blant. Ac unrhyw ddiwrnod rwan mi fydd hi'n talu am ei throsedd.



Dangoswch sleid 6

## Adroddwr

Merch o'r enw Mariam yw Carcharor 2794. Gadewch i mi ddweud wrthych beth mae Amnest yn gwybod amdani. Ddwy flynedd yn ôl, pan roedd hi'n 15 oed, aeth i weld ei hoff grŵp pop, Arian, yn perfformio yn y stadiwm pêl droed lleol. Aeth Mariam i'r cyngerdd â'i chyfnither, Yousra, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 13 oed.

Ar ôl y sioe, roedd y merched yn cerdded adref drwy'r parc. Yn sydyn, roedd grŵp o ddynion o'u cwmpas yn gweiddi'n ddifrïol arnynt. Tynnodd un o'r dynion Yousra i'r llawr. Rhwygodd un arall orchudd Mariam i ffwrdd. Dechreuodd y merched sgrechian. Rhedodd Mariam at yr un a oedd yn ymosod ar Yousra â'i holl nerth.



Dangoswch sleid 7

## Mariam


Rhywsut, mi lwyddais i i fwrw'r dyn mawr drosodd. Ond safodd ar ei draed a daeth tuag ataf. Roedd ganddo gyllell yn ei law. Rhoddais fy llaw yn fy mag i estyn y botel Pepsi oedd gennyf, a llwyddais i dorri'r botel. Mi wnes i ddal gwddf y botel a cheisio gwthio'r dyn i ffwrdd, gan orchuddio fy llygaid a'm hwyneb â'r llaw arall. Fe hyrddiodd ei hun tuag ataf. Teimlais lafn y gyllell yn slaesio fy mraich. Roedd gwaed yn llifo i lawr fy wyneb. Doeddwn i ddim yn gallu gweld. Ergydiais yn ddall ac mewn braw. Teimlais gorff trwm y dyn yn disgyn arnaf. Yn sydyn, roedden ni'n gallu clywed seirenau a breciau'n gwichian. 'Helpwch ni', gwaeddais. 'Helpwch ni!'

## Adroddwr

Gwasgarodd y dynion eraill yn gyflym. Ond roedd y dyn mawr yn gorwedd wrth ei thraed â gwaed yn llifo o'i wddf. Dywedodd Mariam wrth yr heddlu beth oedd wedi digwydd, a rhoddodd y botel doredig a'r gyllell iddynt. Dywedodd un o'r swyddogion heddlu: 'Paid â phoeni, fe wnawn ni eich glanhau. Bydd y bwystfil 'ma ddim yn eich poeni chi eto.'

## Mariam

Yna, fe wnaethon nhw ein gyrru i'r orsaf heddlu. Fe wnaethon ni erfyn arnyn nhw i ffonio ein rhieni.



Dangoswch sleid 8

## Rami

Rami ydw i, uwch ditectif.  Rydw i'n cofio cyfweld â Charcharor 2794. Tybiwn i fod hi'n 21 oed o leiaf. Wrth i mi ei holi, daeth llwyth o gelwyddau.


Roedd yn amlwg i mi fod y merched yn y parc yn chwilio am rywun i ddwyn oddi arno. Doedd y cyhuddedig ddim yn gwisgo gorchudd. Roedd hi'n dangos ei gwallt. Dywedais wrthi ei bod newydd drywanu dyn busnes lleol, uchel ei barch i farwolaeth. Ysgrifennais ddatganiad o'r hyn a ddigwyddodd a gofyn iddi ei lofnodi.



Dangoswch sleid 9

## Mam Mariam

Mam Mariam ydw i. Am ddyddiau, doedd gennym ni ddim syniad beth oedd wedi digwydd ar y noson ddychrynllyd honno. Doedden ni ddim hyd yn oed yn gwybod ble'r oedd y merched. Ni wnaeth yr heddlu ein ffonio. Yn yr orsaf heddlu, fe wnaethon nhw frifo Mariam a gwneud iddi lofnodi cyfaddefiad ffug.



Dangoswch sleid 10

## Mariam

Mi wnes i wrthod llofnodi ei ddarn o bapur. Doeddwn i ddim yn ymddiried ynddo. Dywedais fy mod i eisiau fy mam. Fe roddodd glec i mi a dweud bod rhaid i mi lofnodi'r papur neu mi fyddai'n cadw Yousra fach a fi yn y carchar nes i ni bydru. Roedden ni dan glo am ddyddiau. Fe wnaeth fy nghuro eto sawl gwaith. Yn y pen draw, mi wnes i lofnodi'r ddogfen ffug. Yna, fe wnaethon nhw ryddhau Yousra.



Dangoswch sleid 11

## Samir

Samir ydw i. Rydw i'n 17 oed. Roedd fy nhad yn ddyn gonest ac yn rhedeg ei fusnes ei hun. Rydw i'n cofio'r noson honno ym mis Mai. Daeth grŵp o ffrindiau fy nhad draw i'r tŷ. Dywedasant fod rhyw ferch wedi ymosod ar Dad yn y parc a'i ladd. Doeddwn i ddim yn gallu coelio'r peth. Roedd Dad yn ddyn mawr, gwydn. Roedd wedi bod yn y fyddin ac roedd yn cario cyllell. Ond cafodd ei lofruddio'n ddideimlad.


Daliodd yr heddlu'r llofrudd ac mi wnaeth hi gyfaddef ei ladd, ond mae fy nhad annwyl wedi mynd. Mae fy mam ar ei phen ei hun rŵan, yn wraig weddw. Rydw i eisiau dial. Mae'n rhaid i'r llofrudd cas farw.



Dangoswch sleid 12

## Mam Mariam


Rydyn ni'n deulu tlawd. Doedden ni ddim yn gallu fforddio cyfreithiwr. Ond aethon ni i'r llys ar gyfer treial Mariam. Roedd yr achos cyfan wedi'i seilio ar y llwyth o gelwyddau a'r datganiad ffug roedden nhw wedi gorfodi Mariam i'w lofnodi. Yna, rhoddodd y barnwr ddedfryd marwolaeth. Dywedodd ei fod eisiau dod i'r carchar a'i chrogi ei hun.



**Dangoswch sleid 13**

## Nabil
Nabil ydw i. Rydw i'n gyfreithiwr. Rydw i'n ymgyrchu i atal plant rhag cael eu dienyddio. Mae miloedd y bobl yn y wlad hon wedi llofnodi ein deiseb yn erbyn defnyddio'r gosb eithaf i rai dan 18 oed. Rydw i'n gyfreithiwr i lawer o bobl ifanc sydd ar res yr angau am droseddau y gwnaethant eu cyflawni pan roedden nhw'n blant. Erbyn hyn, rydw i wedi derbyn achos Mariam.

## Adroddwr
Ledled y byd, mae'r rhan fwyaf o wledydd wedi diddymu'r gosb eithaf. Mae bron wedi diflannu'n gyfan gwbl yn Ewrop a De America. Mae llawer o wledydd mwyafrifol Mwslimaidd, fel Twrci a Senegal, wedi diddymu dienyddiadau. Ar draws gogledd a gorllewin Affrica, i'r Dwyrain Canol a Chanolbarth Asia, nid yw llawer mwy o wledydd wedi cynnal dienyddiadau ers blynyddoedd.




**Dangoswch sleid 14**

Er 2000, mae naw o wledydd wedi dienyddio o leiaf 126 o droseddwr ifanc, er bod defnyddio'r gosb eithaf ar gyfer troseddau a gyflawnwyd gan bobl dan 18 oed yn erbyn cyfraith ryngwladol.

## Mariam
Dywedais wrth fy nghyfreithiwr beth oedd wedi digwydd y noson honno. Roeddwn i wedi dychryn am fy mywyd, wedi cynhyrfu ac yn ceisio gwarchod fy nghyfnither. Mae'n ddrwg gennyf dros deulu'r dyn, ond rydw i'n gobeithio y byddan nhw'n sylweddoli bod ei ladd yn ddamwain ofnadwy.

Annwyl Syr
Rydw i'n fyfyriwr ysgol yn y Deyrnas Unedig. Rydw i'n ysgrifennu atoch am Garcharor 2794, sef merch sydd ar fin cael ei chrogi unrhyw ddiwrnod am ei rhan mewn trywaniad marwol pan roedd yn 15 oed.
Rydw i'n gwrthwynebu unrhyw ddienyddiad ond, yn arbennig, rydw i'n gwrthwynebu'r gosb eithaf i unrhyw un a wnaeth droseddu pan roedd yn blentyn. Oni chafodd y dyn ei ladd wrth i Mariam geisio amddiffyn merch iau yr ymosodwyd arni? Roedd yn ddamwain erchyll ac mae gennyf bob cydymdeimlad â theulu'r dyn a gafodd ei ladd.
Mae eich llywodraeth ar fin lladd rhywun i ddangos i bawb bod lladd rhywun yn anghywir.
Os gwelwch yn dda, ataliwch y dienyddiad hwn.
Yr eiddoch yn gywir

**Dangoswch sleid 15**

## Adroddwr
Pan glywson ni am stori Mariam yn yr ysgol, anfonodd ein grŵp Amnest Rhyngwladol lythyrau am ei hachos at bennaeth y system gyfreithiol yn ei gwlad.

Dyma'r hyn a ysgrifennais at Bennaeth y Farnwriaeth Annwyl Syr
Rydw i'n fyfyriwr ysgol yn y Deyrnas Unedig. Rydw i'n ysgrifennu atoch am Garcharor 2794, sef merch sydd ar fin cael ei chrogi unrhyw ddiwrnod am ei rhan mewn trywaniad marwol pan roedd yn 15 oed.

Rydw i'n gwrthwynebu unrhyw ddienyddiad ond, yn arbennig, rydw i'n gwrthwynebu'r gosb eithaf i unrhyw un a wnaeth droseddu pan roedd yn blentyn. Oni chafodd y dyn ei ladd wrth i Mariam geisio amddiffyn merch iau yr ymosodwyd arni? Roedd yn ddamwain erchyll ac mae gennyf bob cydymdeimlad â theulu'r dyn a gafodd ei ladd.

Mae eich llywodraeth ar fin lladd rhywun i ddangos i bawb bod lladd rhywun yn anghywir.

Os gwelwch yn dda, ataliwch y dienyddiad hwn.

Yr eiddoch yn gywir

# SEIBIANT



**Dangoswch sleid 16**

## Nazim

Y diwrnod o'r blaen, daeth y gorchymyn i baratoi Carcharor 2794 i'w dienyddio.

Clymais ei dwylo y tu ôl i'w chefn. Es i â hi i'r buarth dienyddio. Roedd rhaid iddi ddringo i ben y stôl. Rhoddais fag brethyn du dros ei phen. Rhoddais y rhaff o gwmpas ei gwddf. Yna, arhosais am y gorchymyn i gicio'r stôl oddi tani.




**Dangoswch sleid 17**

## Mam Mariam

Cawson ni ond gwybod am ddienyddiad Mariam ychydig funudau cyn iddi gael ei lladd. Nid oedd gennym amser i ddweud hwyl fawr. Roedd fy merch am gael ei chrogi!

Yna'n sydyn, cawsom wybod bod Pennaeth y Farnwriaeth wedi rhoi gorchymyn i ohirio'r dienyddiad.


Roedd cyfreithiwr o'r enw Nabil wedi derbyn achos Mariam am ddim. Mae'n gwneud ei oriau i drefnu apêl.



**Dangoswch sleid 18**

## Nabil

O dan gyfraith y wlad, gall teulu'r dioddefwr ddewis beth sy'n digwydd i'r llofrudd. Gall ofyn am y gosb eithaf neu gall faddau i'r llofrudd os bydd yn talu swm mawr o arian fel iawndal. Mae hwn yn cael ei alw'n waedbris.



**Dangoswch sleid 19**

## Mariam


Mae fy nhynged yn dibynnu ar b'un a yw'r teulu'n gallu maddau i mi a derbyn y gwaedbris neu beidio. Rydw i'n siŵr mai maddeuant yw'r peth olaf ar eu meddyliau.



Dangoswch sleid 20

## Samir

Roedd mam y llofrudd a'i chyfnither yn ddigon digywilydd i ddod draw i'n tŷ â chyfreithiwr i bledio dros ei bywyd. 'Dangoswch drugaredd a maddeuant,' medden nhw. Pa drugaredd a maddeuant y gwnaeth hi eu dangos wrth iddi ladd fy nhad? Rydyn ni eisiau cyfiawnder. Llygad am lygad! Bywyd am fywyd! Rydyn ni am weld y llofrudd yn farw!



Dangoswch sleid 21

## Mariam

Gofynnodd y cyfreithiwr a oedd gennyf neges i deulu'r dyn marw. Gofynnais iddo ddweud fy mod i'n blentyn ar y pryd. Dywedais fod marwolaeth y dyn yn ddamwain ofnadwy a bod yn wir ddrwg gennyf. Mi wnes i rywbeth erchyll ond fe wnaeth ef hefyd. Rydw i'n gwybod bod ei deulu'n dioddef. Maen nhw wedi colli eu tad. Ond maddeuwch i mi, maddeuwch i mi...

## SEIBIANT



Dangoswch sleid 22

## Mam Mariam

'Helo, helo, Nabil? Oes gennych chi newyddion da am apêl Mariam?'

## Nabil

'Mae'n wir ddrwg gennyf, ond mae gennyf newyddion drwg iawn.  Er gwaethaf ein hymdrechion…'

## SEIBIANT



Dangoswch sleid 23

## Nazim

Am 6 o'r gloch neithiwr, cafodd Carcharor 2794 ei chrogi.

## SEIBIANT

## Adroddwr

Mae Amnest Rhyngwladol yn dweud bod troseddwyr ifanc ar res yr angau o hyd mewn sawl gwlad o gwmpas y byd, gan gynnwys Iran, De'r Swdan, Pacistan a Sawdi Arabia.

Ers dechrau 2000, mae o leiaf 126 o droseddwyr ifanc wedi'u dienyddio. Mae'n digwydd o hyd.



**Dangoswch sleid 24**

Ond mae yna obaith. Yn Nigeria, cafodd Moses Akatugba ei ddedfrydu i farwolaeth drwy grogi am ddwyn ffonau symudol pan roedd yn 16 oed. Treuliodd Moses bron i 10 mlynedd yn y carchar, ond cafodd ei ryddhau o res yr angau yn 2015 â chymorth gan Amnest a sefydliadau eraill.




**Dangoswch sleid 25**

## Adroddwr

Mae pobl fel fi yn gweithredu yn erbyn llywodraethau sy'n dedfrydu pobl ifanc dan 18 oed i farwolaeth o hyd. Efallai yr hoffech chi weithredu hefyd? Gallwch gael mwy o wybodaeth gan eich athro neu athrawes, neu ar wefan Amnest Rhyngwladol
**amnesty.org.uk/issues/death-penalty**

**Diolch i chi am wrando heddiw.**

# SYNIADAU ADDYSGU CYFLYM

Chwe gweithgaredd byr i sbarduno trafodaeth am wahanol agweddau ar y gosb eithaf.

**1** Ymchwiliwch i ddadl tair o grefyddau'r byd am y gosb eithaf. Pam mae safbwyntiau crefyddol gwahanol ar y mater hwn rhwng gwahanol grefyddau ac oddi mewn iddynt? Crëwch sylw bachog gan bob un o'r crefyddau i grynhoi eu credoau am y gosb eithaf. Ydych chi'n cytuno â'u dysgeidiaeth? Pam neu pam ddim?



**Ali al-Nimr sydd mewn perygl o gael ei ddienyddio ar hyn o bryd © Preifat**

**2** Ymchwiliwch i actifydd blaenllaw ar y gosb eithaf neu wlad sy'n defnyddio'r gosb eithaf, e.e. y Lleian Helen Prejean, actifydd ac awdur *Dead Man Walking* (sisterhelen.org) neu Tsieina, sy'n dienyddio mwy o bobl nag unrhyw wlad arall. Siaradwch am yr hyn y byddwch yn ei ddarganfod.


**3** Darllenwch *'My heart is exhausted'*, sef stori mam am res yr angau yn Sawdi Arabia. Roedd Ali al-Nimr yn 17 oed pan gafodd ei arestio yn 2012 am gymryd rhan mewn ralïau yn erbyn y llywodraeth, yn ôl pob sôn, a chafodd ei ddedfrydu i farwolaeth drwy dorri pen. Cafodd ei arteithio i roi 'cyfaddefiad' a'i farnu'n euog mewn treialon cyfrinachol. Trafodwch farn ei fam. Dylech fod yn ymwybodol bod y cynnwys yn emosiynol **www.amnesty.org.uk/saudi-ali-al-nimr**



**Llun gan ferch Hamed Ahmadi © Preifat**

**4** Gwyliwch *'I owe my life to Amnesty'* (2.44 munud), sef adroddiad ysgogol gan Hafez Ibrahim, a ddedfrydwyd i farwolaeth yn Yemen pan roedd yn 16 oed. Sut roedd yn teimlo? Ym mha ffyrdd cafodd ei hawliau dynol eu camarfer? Siaradwch am yr hyn y mae wedi'i wneud â'i fywyd ers iddo gael ei ryddhau. Ewch i YouTube (chwiliwch am y teitl). **amn.st/dp-hafez-ibrahim**

**5** Darllenwch a thrafodwch eiriau olaf Hamed Ahmadi mewn llythyr a ysgrifennodd ar res yr angau a'i smyglo o'r carchar cyn iddo gael ei ddienyddio yn 2015. Mae'n sôn am y bygythiad cyson o gael ei ddienyddio ar ôl treial annheg. **www.amnesty.org.uk/iran-hamed-ahmadi**



**Albert Woodfox, a dreuliodd fwy o amser wedi'i garcharu'n unigol yn UDA nag unrhyw un arall, ac a gafodd ei ryddhau yn 2016 ar ôl 43 o flynyddoedd ©AIUK**

**6** Ymchwiliwch i effaith rhes yr angau ar deuluoedd carcharorion a dioddefwyr. Chwaraewch rôl. Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Bydd Grŵp 1 yn chwarae brawd neu chwaer rhywun sydd ar res yr angau, a bydd Grŵp 2 yn chwarae brawd neu chwaer y dioddefwr. Sut mae'n teimlo bod y naill ochr a'r llall i drosedd a chosb? Pa effaith mae wedi'i chael arnoch? Os oeddech chi o blaid y gosb eithaf, ydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei chefnogi o hyd pe byddech chi'n adnabod rhywun ar res yr angau?

**BYDDWCH YN GREADIGOL** Creodd un ysgol a oedd yn gweithio ar brosiect ar y gosb eithaf gell carchar ryngweithiol yn y ffreutur. Rhoesant dâp ar y llawr i fesur maint cell unigol – 9 troedfedd wrth 6 troedfedd yn achos Albert Woodfox, a dreuliodd 43 o flynyddoedd yng ngharchar drwg-enwog Angola yn Louisiana. Roedd myfyrwyr yn gallu dewis treulio amser cinio yn y 'gell' i weld sut roedd yn teimlo.

TAFLEN

# CRYNODEB O'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

Mae'r 30 erthygl yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn cyhoeddi mewn geiriau clir a syml yr hawliau cyfartal sydd gan bawb ar y ddaear. Eich hawliau chi yw'r hawliau hyn.

Gall yr hawliau hyn gael eu cyfyngu mewn amgylchiadau cyfyngedig yn unig, er enghraifft i warchod hawliau pobl eraill. Ni all unrhyw unigolyn na gwlad ddefnyddio unrhyw un o'r erthyglau yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i gyfiawnhau tanseilio'r hawliau y mae gan bob un ohonynt hawl iddynt.

**ERTHYGL 1 'Genir pawb yn rhydd ac yn gydradd â'i gilydd mewn urddas a hawliau'**
Mae gennych yr un hawliau dynol â phawb arall yn y byd oherwydd eich bod yn fod dynol. Mae'r hawliau hyn yn ddiymwad – ni ellir eu tynnu oddi wrthych. Dylai pawb, ni waeth pwy ydynt na lle maent yn byw, gael eu trin ag urddas.

**ERTHYGL 2 'Y mae gan bawb hawl i'r holl hawliau a'r rhyddfreiniau a nodir yn y Datganiad hwn, heb unrhyw wahaniaeth o gwbl'**
Ni ddylai'ch hawliau gael eu cymryd oddi wrthych oherwydd eich hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd neu farn wleidyddol. Ni ddylai fod o bwys ym mha wlad y cawsoch eich geni, pa ddosbarth cymdeithasol rydych yn perthyn iddo neu ba mor gyfoethog neu dlawd rydych.

**ERTHYGL 3 'Y mae gan bawb hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch'**
Mae gan bob un ohonom hawl i fyw ac i wneud hynny'n rhydd ac yn ddiogel. Ni ddylai unrhyw un gael ei ladd yn fympwyol ac ni ddylid cymryd ei ryddid heb reswm da.

**ERTHYGL 4 'Ni ddylid dal neb yn gaethwas nac mewn caethiwed'**
Ni ddylai bodau dynol fod dan berchenogaeth na chael eu prynu na'u gwerthu. Nid oes gan unrhyw un hawl i gaethiwo unrhyw un arall. Mae caethwasiaeth yn drosedd.

**ERTHYGL 5 'Ni ddylid poenydio neb, na thrin na chosbi neb yn greulon, annynol na'n ddiraddiol'**
Mae poenydio wedi'i wahardd mewn unrhyw amgylchiadau. Mae hyn yn berthnasol ym mhob man – gorsafoedd heddlu, carchardai, ar y strydoedd, adeg heddwch neu yn ystod rhyfel.

**ERTHYGL 6 'Y mae gan bawb hawl i gael cydnabyddiaeth ym mhobman fel person yng ngydd y gyfraith'**
Mae gan bob un ohonom hawl i gael ein hamddiffyn yn gyfreithiol yn yr un ffordd.

**ERTHYGL 7 'Y mae pawb yn gydradd yng ngolwg y gyfraith gyda'r hawl yn ddiwahân i'r un amddiffyniad gan y gyfraith'**
Mae gennych yr hawl i gael eich trin yr un ffordd â phawb arall yn ôl y gyfraith. Rhaid i'r gyfraith drin pawb yn deg.

**ERTHYGL 8 'Y mae gan bawb hawl i ymwared effeithiol gan y llysoedd cenedlaethol cymwys rhag gweithredoedd sy'n troseddu'r hawliau sylfaenol a roddwyd iddynt gan y cyfansoddiad neu gan y gyfraith'**
Os bydd rhywun arall yn torri eich hawliau dan y gyfraith – boed yn unigolyn arall neu'n aelod o'r heddlu neu'r lluoedd diogelwch – mae gennych hawl i gyfiawnder.

**ERTHYGL 9 'Ni ddylai neb gael eu dwyn i ddalfa, na'u caethiwo na'u halltudio yn fympwyol'**
Ni ellir eich arestio na'ch dal mewn gorsaf heddlu neu garchar heb reswm da. Ni ellir eich cadw allan o'ch gwlad eich hun.

**ERTHYGL 10 'Y mae gan bawb hawl, mewn cydraddoldeb llawn, i gael gwrandawiad teg a chyhoeddus gan lys annibynnol a diduedd'**
Os cewch eich cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gennych hawl i wrandawiad teg a chyhoeddus. Rhaid i'r llysoedd fod yn annibynnol ar y llywodraeth, yn gymwys i ddehongli'r gyfraith ac yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

**ERTHYGL 11 'Y mae gan bawb a gyhuddir o drosedd gosbadwy hawl i gael eu hystyried yn ddieuog tan y profir hwynt yn euog'**
Os cewch eich cyhuddo o drosedd, mae gennych hawl i gael eich trin yn ddieuog, oni bai neu nes i chi gael eich profi'n euog yn ôl y gyfraith, mewn treial deg a chyhoeddus, lle gallwch gyflwyno amddiffyniad priodol.

**ERTHYGL 12 'Ni ddylid ymyrryd yn fympwyol â bywyd preifat neb, na'u teulu, na'u cartref, na'u gohebiaeth, nac ymosod ar eu hanrhydedd na'u henw da'**
Nid oes gan unrhyw un hawl i ymyrryd â'ch bywyd preifat, eich cartref na'ch teulu. Mae gennych hawl i ofyn i gael eich amddiffyn os bydd rhywun yn ceisio niweidio eich enw da.

**ERTHYGL 13 'Y mae gan bawb hawl i symud fel y mynnant'**
Mae gennych yr hawl i symud fel y mynnoch yn eich gwlad eich hun. Hefyd, mae gennych hawl i deithio yn ôl ac ymlaen o'ch gwlad eich hun, ac i adael unrhyw wlad.

**ERTHYGL 14 'Y mae gan bawb hawl i geisio ac i gael mewn gwledydd eraill noddfa rhag erledigaeth'**
Os cewch eich gorfodi i ffoi o'ch cartref oherwydd i'ch hawliau dynol gael eu camarfer, mae gennych hawl i geisio diogelwch mewn gwlad arall. Mae hyn yn golygu na all heddlu'r ffiniau nac awdurdodau eraill eich gwrthod rhag dod i mewn, na dychwelyd i'ch gwlad eich hun, heb roi ystyriaeth briodol i'ch cais am noddfa.

**ERTHYGL 15 'Y mae gan bawb hawl i genedligrwydd'**
Mae gennych hawl i gael eich trin fel dinesydd o'r wlad rydych yn dod ohoni. Ni all unrhyw un gymryd eich dinasyddiaeth gennych, na'ch atal rhag newid eich cenedligrwydd heb reswm da.

**ERTHYGL 16 'Y mae gan bawb, yn wryw a benyw... hawl i briodi a sefydlu teulu'**
Mae gan bob oedolyn hawl i briodi a sefydlu teulu, beth bynnag fo'u hil, gwlad neu grefydd. Mae gan y ddau bartner hawliau cyfartal yn y briodas, ac mae angen eu cytundeb rhydd a llawn i briodi. Mae gan y teulu hawl i gael ei amddiffyn gan y wladwriaeth.

**ERTHYGL 17 'Y mae gan bawb hawl i feddu eiddo'**
Mae gennych yr hawl i feddu nwyddau, tir ac eiddo arall, ar eich pen eich hun neu â phobl eraill. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i gymryd y rhain gennych heb reswm da.

**ERTHYGL 18 'Y mae gan bawb hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd'**
Mae gennych hawl i fod â barn am unrhyw fater heb ofni cael eich cosbi na'ch ceryddu. Hefyd, mae gennych hawl i goelio mewn unrhyw grefydd – neu beidio. Mae gennych hawl i newid eich crefydd, os ydych yn dymuno, ac arfer ac addysgu eich crefydd neu gred.

**ERTHYGL 19 'Y mae gan bawb ryddid barn a mynegiant'**
Mae gennych hawl i rannu eich barn – ni waeth pa mor amhoblogaidd ydyw – heb ofni cael eich cosbi, â phobl yn eich gwlad eich hun a gwledydd eraill.

**ERTHYGL 20 'Y mae gan bawb hawl i ryddid ymgynnull a chymdeithasu heddychlon'**
Mae gennych hael i ymgynnull â phobl eraill, yn gyhoeddus neu'n breifat. Mae gennych hawl i gynnal cyfarfodydd a threfnu protestiadau heddychlon. Mae gan bawb hawl i ymuno â chymdeithasau, undebau llafur, grwpiau gwleidyddol a chymdeithasau eraill. Ni all unrhyw un eich gorfodi i ymuno ag unrhyw grŵp os nad ydych yn dymuno gwneud hynny.

**ERTHYGL 21 'Y mae gan bawb hawl i gymryd rhan yn llywodraeth eu gwlad'**
Mae gennych hawl i fod yn rhan o'ch llywodraeth, naill ai drwy fod yn rhan ohono eich hun neu drwy ddewis pobl eraill i'ch cynrychioli. Mae gan lywodraethau'r awdurdod i lywodraethu gan eu bod yn cynrychioli ewyllys y bobl. Mae hyn yn golygu y dylai fod etholiadau rhydd a theg yn rheolaidd.

**ERTHYGL 22 'Y mae gan bawb, fel aelod o gymdeithas, hawl i ddiogelwch cymdeithasol, i allu mwynhau hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol'**
Mae gennych hawl i fodloni eich anghenion sylfaenol. Mae gan bawb hawl i fyw mewn amodau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n caniatáu urddas ac sy'n caniatáu iddynt ddatblygu fel unigolion. Dylai pob gwlad wneud popeth y gallant i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**ERTHYGL 23 'Y mae gan bawb hawl i waith... Y mae gan bawb hawl i ffurfio undebau llafur ac i ymuno â hwy'**
Mae gennych hawl i weithio mewn amodau teg a diogel a dewis eich swydd, a chael cyflog i'ch galluogi i fyw a chefnogi eich teulu. Hefyd, mae gennych hawl i ffurfio neu ymuno ag undeb llafur i warchod eich buddiannau.

**ERTHYGL 24 'Y mae gan bawb hawl i orffwys a hamdden'**
Mae gennych hawl i gael amser i ffwrdd o'r gwaith. Ni all unrhyw un eich gorfodi i weithio oriau afresymol, ac mae gennych hawl i wyliau â thâl.

**ERTHYGL 25 'Y mae gan bawb hawl i safon byw digonol i'w hiechyd a'u ffyniant'**
Mae gan bob un ohonom hawl i fywyd boddhaol, gan gynnwys bwyd, dillad, tai, gofal meddygol a gwasanaethau cymdeithasol digonol. Dylai cymdeithas helpu'r rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd eu bod yn ddi-waith, yn sâl, yn anabl neu'n rhy hen. Mae gan famau a phlant hawl i ofal a chymorth arbennig.

**ERTHYGL 26 'Y mae gan bawb hawl i addysg'**
Mae gan bawb hawl i addysg. Dylai fod yn rhad ac am ddim, a dylai fod yn ofynnol i bawb gwblhau blynyddoedd cynnar addysg, o leiaf. Dylai addysg ar lefel uwch fod ar gael i bawb yn gyfartal ar sail teilyngdod. Dylai addysg gryfhau parch tuag at hawliau dynol.

**ERTHYGL 27 'Y mae gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol eu cymdeithas'**
Ni all unrhyw un eich rhwystro rhag ymuno â digwyddiadau diwylliannol sy'n cael eu trefnu yn eich cymuned.
Mae gennych hawl i fwynhau cerddoriaeth, dramâu, arddangosfeydd, barddoniaeth neu unrhyw fath arall o fynegiant artistig neu gyfunol. Mae gennych hawl i rannu'r manteision a ddaw o ddarganfyddiadau gwyddonol.


**ERTHYGL 28 'Y mae gan bawb hawl i drefn gymdeithasol a rhyngwladol lle y gellir llawn sylweddoli'r hawliau a'r rhyddfreiniau a nodir yn y Datganiad hwn'**
Mae gan fodau dynol hawl i fyw yn y math o fyd sy'n parchu eu hawliau a'u rhyddfreiniau.

**ERTHYGL 29 'Y mae gan bawb eu dyletswyddau i gymdeithas'**
Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb tuag at y bobl o'n cwmpas, a gallwn ond datblygu'n llawn fel unigolion drwy ofalu am ein gilydd. Gall yr holl hawliau yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ond cael eu cyfyngu gan y gyfraith a dim ond os yw'n angenrheidiol i warchod hawliau pobl eraill, bodloni ymdeimlad cymdeithas o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, cadw trefn a gofalu am les cymdeithas yn ei chyfanrwydd.


**ERTHYGL 30 'Ni ddylai unrhyw lywodraeth, grŵp neu unigolion ddistrywio unrhyw un o'r hawliau neu'r rhyddfreiniau hyn'**
Ni ddylai unrhyw gymdeithas na bod dynol ymddwyn mewn ffordd sy'n distrywio'r hawliau a'r rhyddfreiniau sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwn, y mae gan bob un ohonom hawl iddynt.

■ Mae hon yn fersiwn symlach o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol y DU. I weld y fersiwn lawn, ewch i **amnesty.org.uk/universal**

Daw'r testun hwn o Fy Mhasbort Hawliau, sy'n cynnwys hanes cryno o hawliau dynol a'r erthyglau sydd wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Gallwch archebu copïau unigol neu becynnau dosbarth am ddim drwy ddyfynnu'r cod ED112 o 01788 545553, **sct@amnesty. org.uk**



# Y GOSB EITHAF
# LEDLED Y BYD YN 2018




**SOMALIA** Bron wedi haneru ei dienyddiadau cofnodedig.

**Y SWDAN** Ailddechreuodd dienyddiadau ar ôl blwyddyn hebddynt.

**NIGERIA** Ymestynnwyd cwmpas y gosb eithaf.

**TSIEINA Y** dienyddiwr mwyaf yn y byd ond mae'n gwrthod datgelu ffigurau.

**PACISTAN** Gostyngodd dienyddiadau 77 y cant.

**IRAN** Gostyngodd dienyddiadau 50 y cant ar ôl newidiadau i ddeddfwriaeth cyffuriau.

**IRAC** Pedryblodd dedfrydau marwolaeth o o leiaf 65 yn 2017 i o leiaf 271 yn 2018.

**YR AIFFT** Cynyddodd dienyddiadau â chynnydd o 75 y cant mewn dedfrydau marwolaeth (717+) a briodolwyd i dreialon torfol yn bennaf.

**AFFGANISTAN** Tri dienyddiad mewn un diwrnod, ond menter newydd gan y llywodraeth i adolygu pob dedfryd marwolaeth.

**SAWDI ARABIA** Yn aml, caiff dienyddiadau eu cyflawni drwy dorri pen yn gyhoeddus. Roedd mwyafrif y rhai a ddienyddiwyd yn ddinasyddion tramor.

**UDA** Roedd mân gynnydd yn nifer y dienyddiadau am yr ail flwyddyn, ond roedd y ffigurau'n isel yn hanesyddol o hyd. Daeth Washington yr 20fed talaith i ddiddymu'r gosb eithaf.

**FIETNAM** Roedd ffigurau swyddogol prin yn ei rhoi ymhlith y pum dienyddiwr mwyaf yn y byd.

**SINGAPÔR** Cyrhaeddodd nifer y dienyddiadau ffigurau dwbl am y tro cyntaf er 2003.

**GWLAD TAI** Ailddechreuodd dienyddiadau yn 2018 am y tro cyntaf er 2009.

**JAPAN** Y nifer fwyaf o ddienyddiadau (15) a gofnodwyd ers degawd.

■ **DARLLENWCH YR ADRODDIAD www.amnesty.org.uk/dpreport-2018**

# RHESTR TERMAU

**Y gosb eithaf**
Pan fydd y wladwriaeth yn cosbi pobl drwy eu dienyddio.

**Diddymwyr ar gyfer pob trosedd**
Gwledydd nad yw eu cyfreithiau'n darparu ar gyfer y gosb eithaf ar gyfer unrhyw drosedd.

**Diddymwyr ar gyfer troseddau cyffredin**
Gwledydd y mae eu cyfreithiau'n darparu ar gyfer y gosb eithaf, ond dim ond ar gyfer troseddau eithriadol, fel troseddau dan gyfraith filwrol neu yn ystod rhyfel.

**Diddymwyr yn ymarferol**
Gwledydd sy'n cadw'r gosb eithaf yn y gyfraith ar gyfer troseddau cyffredin, fel llofruddiaeth, ond nad ydynt wedi dienyddio unrhyw un yn ystod y 10 mlynedd diwethaf ac y credir bod ganddynt bolisi neu arfer sefydledig o beidio â dienyddio.

**Cadwyr**
Gwledydd sy'n cadw'r gost eithaf yn y gyfraith ar gyfer troseddau cyffredin, fel llofruddiaeth a masnachu cyffuriau, adeg heddwch ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i fod yn 'ddiddymwyr yn ymarferol'.

**Trugaredd**
Gweithred o drugaredd neu dosturi drwy leihau neu ddileu dedfryd yn gyfan gwbl; mae'n cael ei ddefnyddio'n derm cyffredin sy'n cwmpasu newid dedfryd a maddeuant.

**Newid dedfryd**
Newid dedfryd marwolaeth am gosb lai difrifol, fel cyfnod yn y carchar.

**Maddeuant**
Pan fydd yr unigolyn a farnwyd yn euog yn cael ei esgusodi'n gyfan gwbl rhag cosb bellach; gellir rhoi maddeuant am amrywiaeth o resymau.

**Rhyddhau**
Ar ôl dedfrydu a diwedd y broses apelio, mae'r unigolyn a farnwyd yn euog yn cael ei ryddhau rhag bai neu'n ei gael ei ddieuog o'r cyhuddiad gwreiddiol yn ddiweddarach, ac felly mae'n ddieuog yn ôl y gyfraith.

**Troseddau mwyaf difrifol**
Yr unig gategori o droseddau y mae cyfraith ryngwladol yn caniatáu'r gosb eithaf ar eu cyfer. Mae cyrff rhyngwladol wedi dehongli bod y rhain wedi'u cyfyngu i droseddau sy'n cynnwys lladd yn fwriadol yn unig.

**Moratoriwm ar ddienyddiadau/ar ddefnyddio'r gosb eithaf**
Penderfyniad swyddogol i roi'r gorau i ddienyddio pobl, neu roi'r gorau i roi dedfrydau marwolaeth hyd yn oed, ond heb ddiddymu'r gosb eithaf yn gyfan gwbl. Nid yw moratoriwm yn barhaol, o reidrwydd: gall unrhyw lywodraeth neu lys a'i rhoddodd ar waith wrthdroi ei benderfyniad.

# ADNODDAU A SEFYDLIADAU DEFNYDDIOL

## Amnest Rhyngwladol

**Adroddiad ar y Gosb Eithaf, 2018**
amnesty.org.uk/dpreport-2018

**Gwaith ymgyrchu**
amnesty.org.uk/issues/death-penalty

**Y Gosb Eithaf – Ateb eich cwestiynau**
amn.st/dpQA

**Naw fideo i'ch helpu i siarad am y gosb eithaf**
amn.st/dp-education-videos

**Astudiaethau Achos Amnest Rhyngwladol i chi eu harchwilio**
- Reggie Clemons, UDA
- Hakamado Iwao, Japan
- Zeinab Sekaanvand, Iran

## Gwefannau eraill

**Fair Trials**
fairtrials.org

**World Coalition Against the Death Penalty**
worldcoalition.org

**Death Penalty Information Centre**
www.deathpenaltyinfo.org

**Reprieve**
reprieve.org.uk

**Stop Child Executions**
stopchildexecutions.com

**International Commission Against The Death Penalty**
icomdp.org

Mae Amnest Rhyngwladol yn fudiad o bobl gyffredin ledled y byd sy'n dadlau dros ddynoliaeth a hawliau dynol. Ein diben yw amddiffyn unigolion lle mae cyfiawnder, tegwch, rhyddid a gwirionedd yn cael eu gwrthod.

Ewch i **www.amnesty.org.uk/education**

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â

Ffôn **020 7033 1777**

E-bost **sct@amnesty.org.uk**


**Amnest Rhyngwladol y DU**

The Human Rights Action Centre
17-25 New Inn Yard
London EC2A 3EA
+44 (0)20 7033 1777
sct@amnesty.org.uk

Gogledd Iwerddon
+44 (0) 28 9064 3000
nireland@amnesty.org.uk

Yr Alban
+44 (0) 844 800 9088
scotland@amnesty.org.uk



Cefnogir gan chwaraewyr
PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY


AMNEST RHYNGWLADOL